



# Y siwrnai ddysgu i bobl ifanc y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) yn eu lleoli mewn Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru



## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 020/2009  
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2009



Ministry of  
**JUSTICE**  
National Offender  
Management Service



# Y siwrnai ddysgu i bobl ifanc y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) yn eu lleoli mewn Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru

- Cynulleidfa** Rheolwyr Cartrefi Diogel i Blant, Awdurdodau Lleol yng Nghymru a rhanddeiliaid yn y gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal a'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru.
- Trosolwg** Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn berchen ar y ddogfen hon ar y cyd. Cynhwysir prif elfennau ei phwrpas yn y cyflwyniad. Un amcan yw manylu ar ofynion ac arfer da ar gyfer cyflenwi gwasanaethau dysgu a sgiliau ar gyfer troseddwy ifanc mewn Cartrefi Diogel i Blant. Mae'n bwriadu hybu profiadau addysg a hyfforddiant cyson i droseddwy ifanc rhwng y ddalfa a'r gymuned, gyda darpariaeth wedi'i seilio ar ddiwallu anghenion personol a maethu ymgysylltiad, cynnydd a chyflawniad pobl ifanc.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth.
- Rhagor o wybodaeth** Y Gangen Hawliau  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 1662  
Ffacs: 029 2080 1051  
E-bost: [rightsandentitlementsbranch@wales.gsi.gov.uk](mailto:rightsandentitlementsbranch@wales.gsi.gov.uk)
- Copiau ychwanegol** Gellir cael copiau ychwanegol yn y cyfeiriad uchod.  
Gellir cael y ddogfen hon hefyd o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:  
<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy>
- Dogfennau cysylltiedig** Strategaeth Troseddwy Ifanc Cymru Gyfan Gorffennaf 2004  
ISBN: 0 7504 3470 8  
Dysgu Newid: Datblygu Sgiliau i Ostwng Aildroseddu yng Nghymru  
Mawrth 2007  
ISBN: 978 0 7504 4139 1

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Cyflwyniad	1
Pwrpas y Ddogfen Hon	3
Y cwricwlwm addysg a sgiliau	17
1    Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd	17
2    Aseu'r Dysgwr	21
3    Cynlluniau dysgu unigol	27
4    Y Cwricwlwm	31
5    Sgiliau Llythrennedd, Iaith a Rhifedd	37
6    Sgiliau TGCh	41
7    Dysgu Cysylltiedig â Gwaith	45
8    Addysg Bellach ac Uwch	47
9    Gweithgareddau Cyfoethogi a'r Celfyddydau	49
10   Datblygiad Personol a Chymdeithasol	53
11   Dysgu o Bell, Dysgu seiliedig ar Adnoddau ac e-Ddysgu	55
12   Pynciau Eraill	57
13   Paratoi ar gyfer Rhyddhau ac Ailsefydlu	59
14   Sicrhau Ansawdd a Gwella Ansawdd	63
15   Dysgu Cynhwysol a Chymorth Dysgu	65
16   Pwyntiau Esbonio	69
Rhestr o Dermau	73



## Cyflwyniad

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â'r cyfrifoldeb arwain polisi ar gyfer gwella cyfleoedd dysgu i droseddwyr ifanc rhwng 11 a 25 oed mewn lleoliadau cymunedol yng Nghymru.

- Mae'r gwaith hwn yn rhan annatod o ddull ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru, seiliedig ar hawliau, o fynd ati i gynorthwyo'r holl blant a phobl ifanc i ddysgu'n effeithiol, i wireddu eu potensial ac i chwarae rhan weithgar mewn bywyd cymunedol. Rhoddir y dull hwn ar waith trwy ganllawiau statudol ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc o'r enw *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau* ac ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau*, gyda chefnogaeth *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 Oed yng Nghymru: Cyfarwyddyd a Chanllawiau* (2002), "Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan", "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru" a Llwybrau Dysgu 14-19, yng nghyd-destun ehangach "Gweledigaeth ar Waith" a "Cymru'n Un".
- Ym maes cynorthwyo dysgu pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio ar lefel Cymru a Lloegr mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau ac Adrannau Llywodraeth eraill, gan gynnwys Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) Cymru a Lloegr a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio'n agos ag ystod o bartneriaid cenedlaethol a lleol yng Nghymru i sicrhau bod amcan ei pholisi'n cael ei gyflawni.

Mae llawer o bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, am ba reswm bynnag, wedi cael profiad anodd neu ofidus o addysg yn eu bywydau cynnar. Mae'n hanfodol fod y system cyfiawnder ieuenctid yn cynnwys ffocws ar baratoi pobl ifanc â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer dysgu pellach, hyfforddiant a chyflogaeth ac i wella'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n rhaid i ni roi'r sgiliau angenrheidiol i'r holl bobl ifanc er mwyn iddynt chwarae rhan weithgar mewn cymdeithas ac i helpu i atal cylchredau troseddu. Tra'i bod yn eglur nad addysg yw'r unig ffactor mewn atal troseddu ac aildroseddu, mae ymchwil yn awgrymu bod addysg yn chwarae rôl allweddol.

Mae'r sector wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blynyddoedd diweddar o ran gwella gallu troseddwyr ifanc i fanteisio ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac o ran cyfleoedd ynddynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod â dyheadau uchelgeisiol ar gyfer pob unigolyn ifanc, ac rydym wedi ymrwymo i ymgyrchu am welliannau parhaus. Rydym am sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn cyfranogi, yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni mewn addysg a hyfforddiant, a'u bod yn cael eu cynorthwyo i wireddu eu potensial.



## Pwrpas y Ddogfen Hon

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn berchen ar y ddogfen hon ar y cyd.

Pwrpas y ddogfen hon yw:

- disgrifio'r amgylchedd polisi y mae darpariaeth dysgu a sgiliau troseddwr ifanc wedi'i gosod ynddo;
- disgrifio'r rôl y mae disgwyl i ddarpariaeth dysgu a sgiliau troseddwr ifanc ei chwarae wrth gyflawni amcanion polisi'r Llywodraeth yng Nghymru a Lloegr;
- manylu ar ofynion ac arfer da ar gyfer cyflenwi gwasanaethau dysgu a sgiliau ar gyfer troseddwr ifanc mewn Cartrefi Diogel i Blant. Mae'n bwriadu hybu profiadau addysg a hyfforddiant cyson i droseddwr ifanc rhwng y ddalfa a'r gymuned, gyda darpariaeth wedi'i seilio ar ddiwallu anghenion personol a maethu ymgysylltiad, cynnydd a chyflawniad pobl ifanc;
- manylu ar ofynion a disgwyliadau'r BCI a LICC ar gyfer y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc (wedi'u lleoli gan y BCI) mewn Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu gofynion ar gyfer y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i bobl ifanc y mae'r BCI yn eu lleoli mewn Cartrefi Diogel i Blant, ac felly mae'n cynnwys pobl ifanc ar remand a throseddwr ifanc sydd wedi'u dedfrydu. Mae gofyn i Gartrefi Diogel i Blant gydymffurfio â'r gofynion yn y ddogfen hon trwy eu contractau â'r BCI.

Dylai ymarferwyr sy'n defnyddio'r ddogfen hon hefyd sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau perthnasol eraill sy'n ymwneud â pholisi ac ariannu trwy Lywodraeth EM, LICC a phartneriaid cysylltiedig eraill.

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar yr addysg a'r hyfforddiant i'w cyflenwi i blant a phobl ifanc yn y ddalfa ieuencid mewn Cartrefi Diogel i Blant yng **Nghymru**, gan gydnabod y berthynas agos rhwng hon a'r ddogfen wreiddiol ar gyfer Lloegr yn unig, sef '*The Learning Journey for young people placed by the Youth Justice Board (YJB) in Secure Children's Home*'. Er bod y BCI a'r system cyfiawnder ieuencid yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr, fe ddatganolwyd y cyfrifoldeb am bolisi addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Weinidogion Cymru yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Defnyddir y termau 'dysgu', 'hyfforddiant', 'addysg' a 'sgiliau' yn gyfnewidiol yn y ddogfen hon, a dylid cymryd bob pob un yn golygu'r ystod a'r amrywiaeth lawn o weithgareddau dysgu a datblygu i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys dysgu 'academaidd', hyfforddiant sy'n golygu dysgu sgiliau galwedigaethol neu ymarferol, sgiliau datblygiad personol a sgiliau bywyd, a sgiliau a ddysgir mewn gweithleoedd. Yng Nghymru, dylai'r dysgu ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc, ac ni fydd dysgu'n digwydd oni bai bod yr unigolyn ifanc wedi ymgysylltu ag ef. Rhaid i'r unigolyn ifanc

fod yn ganolbwynt i'r broses. Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â'r cyfrifoldeb arwain polisi ar lefel swyddogol ar gyfer gwella cyfleoedd dysgu i droseddwr ifanc rhwng 11 a 25 oed mewn lleoliadau cymunedol yng Nghymru. Mae APADGOS yn gweithio mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid allweddol yn genedlaethol ac yn lleol yn y system cyfiawnder troseddol, er mwyn sicrhau bod anghenion dysgu pobl ifanc o Gymru yn cael eu cefnogi i'r graddau mwyaf posibl.

## Gweledigaeth

- Rydym yn cydnabod darganfyddiadau tystiolaeth ymchwil BCI, *Barriers to Engagement in Education, Training and Employment YJB* (2006), mai addysg yw'r ffactor gwarcheidiol pwysicaf un sy'n atal aildroseddu.
- Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn darparu'r addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol i ddiwallu eu hanghenion personol a darparu llwybrau dysgu pellach/cyflogaeth, ac mae'n hanfodol fod hyn yn ffurfio rhan o gynllun dedfryd cyffredinol yr unigolyn ifanc.
- Rydym hefyd yn ymwybodol mai sgiliau sylfaenol gwael sydd gan lawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, a bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (weithiau heb eu cydnabod).

Rydym yn disgwyl i'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant gynnis y canlynol:

- sgrinio ac asesu effeithiol er mwyn nodi anghenion pobl ifanc a darparu sail ar gyfer cynllunio addysg a dedfryd;
- cynhyrchu cynlluniau dysgu unigol yn gynnar, gan ddarparu sail ar gyfer y ddarpariaeth y bydd pobl ifanc yn ei derbyn. Dylid integreiddio cynlluniau dysgu unigol i gynlluniau personol/dedfryd pobl ifanc, a chynlluniau ar gyfer eu hailsefydlu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau;
- gweithgareddau dysgu a datblygu a rhaglenni ymyrraeth sydd:
  - ◆ yn darparu cynnis cwricwlwm mor eang â phosibl o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd gwarcheidiol, sydd wedi'i alinio cyn belled â phosibl â chwricwlwm y prif ffrwd yng Nghymru, a chyda chyfeiriad priodol at ddiwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru. Mae'n rhaid iddo gynorthwyo pobl ifanc i ddysgu a datblygu, gan ystyried eu hanghenion personol a chysylltu'n gydlynol â chyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth, yn y gymuned "letyol" y mae'r Cartref Diogel i Plant ynddi ac yng nghymuned cartref yr unigolyn ifanc. Am y rhesymau hyn, mae angen i'r Cartref Diogel i Plant weithio'n agos â'r Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) yn ardal gartref pob unigolyn ifanc, a chyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn yr ardal y mae'r Cartref Diogel i Blant ynddi. Yng Nghymru, rhaid i'r ddarpariaeth gynnwys y Cwricwlwm Cymreig, ac ystyried y ddarpariaeth Gymraeg;
  - ◆ yn darparu'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion personol pobl ifanc cyn belled â phosibl o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd gwarcheidiol a dedfryd yr unigolyn ifanc;



- ◆ o'r un safon uchel â'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr yn sector addysg y brif ffrwd;
  - ◆ yn rhoi pwysigrwydd i ystod eang o amgylcheddau dysgu (yn unol ag anghenion a llwybrau dysgu/cyflogaeth pobl ifanc) gan gynnwys: dysgu sgiliau sylfaenol, gweithgareddau ymgysylltu, dysgu personol a chymdeithasol, dysgu galwedigaethol yn ogystal â dysgu yn yr ystafell ddosbarth;
  - ◆ mynediad priodol at wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd Gyrfa Cymru;
  - ◆ y ddarpariaeth orau bosibl ar gyfer e-ddysgu a defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol, gan ystyried diogelwch ac amddiffyniad y cyhoedd;
  - ◆ wedi'i gysylltu'n ddi-dor i gynorthwyo plant a phobl ifanc ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, trwy'r tîm troseddau ieuencid, gwasanaethau Gyrfa Cymru a gwasanaethau amlasiantaeth ehangach trwy'r PPPHI, er mwyn annog ymgysylltiad a chynnydd parhaus mewn rhaglenni addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Dylai'r canlynol fod yn sylfaen i hyn:
    - ◆ cyfarwyddyd eglur oddi wrth reolwyr Cartrefi Diogel i Blant ynghylch pwysigrwydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Dylai'r ddarpariaeth dysgu a chymorth ffurfio rhan ganolog trefnau gwarcheidiol a bod wedi'i hintegreiddio â chynllunio dedfryd ehangach;
    - ◆ fframweithiau rheoli perfformiad ac arolygiad, targedau a gwobrau ac atebolrwyddau sy'n pwysleisio pwysigrwydd dilyniant dysgu a sgiliau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc;
    - ◆ dilyniant a chydlyniad wrth rannu gwybodaeth a throsglwyddo cofnodion addysg a hyfforddiant rhwng ymarferwyr a sefydliadau, boed yn yr ystâd ddiogel neu yn y gymuned, er mwyn maethu dilyniant darpariaeth a chymorth;
    - ◆ cydnabyddiaeth bod egwyddorion amrywiaeth a chefnogi cyfle cyfartal yn faterion sydd wrth galon yr ystâd ddiogel ac wrth galon codi safonau mewn dysgu a sgiliau. Rhaid i amrywiaeth a chyfle cyfartal fod yn rhan annatod o'r holl weithgareddau dysgu a sgiliau. Rhaid i Gartrefi Diogel i Blant werthfawrogi amrywiaeth, a chynnig a hybu cyfle cyfartal i bawb trwy gyflenwi darpariaeth/gwasanaethau addysg a hyfforddiant cynhwysol sy'n ceisio diwallu anghenion personol plant a phobl ifanc.

**Gall y Cwricwlwm Cymreig helpu disgyblion i:**

- ddeall a dathlu ansawdd penodol byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain;
- nodi eu hymdeimlad nhw eu hunain o Gymreictod;
- gwir deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned leol a'u gwlad;

- helpu'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o Gymru gydwladol sy'n edrych allan i'r byd.

Mae'n rhaid i ysgolion/adrannau addysg fod yn ymrwymedig os ydynt am fod yn llwyddiannus wrth gyflwyno Cwricwlwm Cymreig, a dylai'r ymrwymiad hwn godi o sylweddoli y gall y profiad Cymreig, yn ei holl agweddau, fod yn gyfle gwerthfawr i estyn profiad addysgol pob disgybl yng Nghymru.

I fod o gymorth i ysgolion wrth iddynt gyflawni hyn, gwnaeth ACCAC, cyn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC), y mae ei swyddogaethau bellach yn rhan o APADGOS, gyhoeddi arweiniad a luniwyd i helpu ysgolion i gynllunio a datblygu gweithgareddau dysgu i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n cynnig hyfforddiant athrawon cychwynnol a datblygiad proffesiynol. Gellir dod o hyd i wybodaeth trwy <http://accac.org.uk/cym/content.php?clD=3&plD=112>.

### **Yr Iaith Gymraeg**

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n gosod y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru, yn cynrychioli carreg filltir yn hanes modern yr iaith.

Mewn termau syml, mae'r Ddeddf yn manylu ar dri pheth:

- mae'n gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru;
- mae'n rhoi hawl lwyr i siaradwyr Cymraeg siarad Cymraeg yn y llys;
- mae'n sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg i oruchwylio cyflawni'r addewidion hyn ac i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth trwy: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/Pages/index.aspx>.

### **Dangosyddion a Thargedau Perfformiad**

Un o'r dangosyddion cenedlaethol newydd yw'r newid canran yn nifer cyfartalog yr oriau o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas y mae plant a phobl ifanc yn eu derbyn tra'u bod yn y system cyfiawnder ieuencid cyn-16 ac ôl-16.

Cyflawnir hyn trwy gyfrifo nifer cyfartalog yr oriau o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y mae pobl ifanc yn eu derbyn mewn carfan yn ystod yr wythnos lawn olaf cyn dechrau a chyn diwedd eu rhaglen. Mynegir y gwahaniaeth yn nifer cyfartalog yr oriau cyn diwedd a chyn dechrau'r rhaglen fel canran o'r oriau cyfartalog cyn y dechrau.

Mae yna hefyd sawl dangosydd perfformiad BCI sy'n gysylltiedig â dysgu a sgiliau sy'n benodol i'r ystâd ddiogel, yn ymwneud ag asesiad pobl ifanc, eu cynlluniau hyfforddi, eu cynnydd a nifer cyfartalog eu horiau addysg a hyfforddiant yr wythnos. Mae'r rhain yn amrywio rhyw ychydig ar draws y tri math o ystâd ddiogel ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid. Er hynny, manylir isod ar y

dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud ag addysg ar gyfer plant a phobl ifanc mewn Cartrefi Diogel i Blant:

Oriau addysg a hyfforddiant	Bydd 100% o bobl ifanc yn derbyn 30 awr yr wythnos o weithgareddau addysg, hyfforddiant a datblygiad personol sy'n cydymffurfio â'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Dysgu a Sgiliau.
Llythrennedd a rhifedd	Bydd llythrennedd a rhifedd yr holl bobl ifanc a fydd yn dod i mewn i gyfleusterau diogel yn cael eu rhoi ar brawf, gydag 80% o bobl ifanc ar Orchmynion Cadw a Hyfforddi am chwe mis neu fwy yn gwella o un lefel sgiliau neu fwy mewn llythrennedd a/neu rifedd i'r lefel sydd ei hangen fel y nodir yn eu cynllun dysgu unigol.
Cynllunio hyfforddiant	Bydd gan yr holl bobl ifanc sy'n dod i mewn i gyfleusterau diogel gynllun hyfforddiant wedi'i ddatblygu ac yna'i adolygu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid.

## Y Fframwaith Polisi

### Effaith datganoli ar ddysgu troseddwr ifanc

Yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 1998, sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fe ddatganolwyd y cyfrifoldeb am yr holl faterion polisi ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a sgiliau (gan gynnwys ariannu) i Gymru. Ers hynny, bu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng Cymru a Lloegr o ran y dull o drin addysg a dysgu.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr (BCI) yn gyfrifol am gydlynu'r system cyfiawnder ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr. Ei amcan yw atal plant a phobl ifanc rhag troseddu trwy atal trosedd ac ofn trosedd, adnabod troseddwr ifanc a delio â nhw, a chwtogi ar aildroseddu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r BCI yn gweithio'n agos ar y cyd â'i gilydd ac â sefydliadau sy'n bartneriaid allweddol i sicrhau cyfleoedd dysgu effeithiol, darpariaeth a chymorth i bobl ifanc o Gymru sy'n bwrw dedfrydau cymunedol, dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuencid ledled Cymru.

### Crynodeb o ddatblygiadau polisi allweddol yng Nghymru

#### Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru rhwng 0 a 25 oed yn gallu mynnu eu hawliau dynol sylfaenol dan Ddeddf Hawliau Dynol 2000, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r protocolau cysylltiedig.

Yn ystod 2009, bydd LICC yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, pobl broffesiynol, rhieni a phlant a phobl ifanc ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc.

Ym mis Tachwedd 2002, fe fabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y sail ar gyfer ei holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Manylir ar yr ymrwymiad hwn mewn canllawiau statudol ar gyfer Partneriaethau a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc (gweler para 2).

Mae'r ymrwymiad wedi'i drosi'n saith Nod Craidd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio trwyddynt i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc:

- 1. yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;**
- 2. yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;**
- 3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio;**
- 4. yn gallu manteisio ar weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;**
- 5. yn cael eu trin â pharch, a bod pobl yn gwranddo arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;**
- 6. yn cael cartref diogel ynghyd â chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol;**
- 7. ddim dan anfantais oherwydd tlodi.**

### **Rhoi Deddf Plant 2004 ar Waith – Cymru**

Mae Deddf Plant 2004 yn darparu cyfle i gryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol sy'n darparu ar gyfer cydweithredu ymhlith darparwyr wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'n rhoi sail statudol ar gyfer cydweithredu rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid allweddol i wella lles plant, ac ar gyfer Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPHI) sengl.

Mae'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc statudol yn gyfrifol am gydweithrediad wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau i'r holl blant a phobl ifanc rhwng y cyfnod ar ôl eu geni a 18 oed, ynghyd â'r rheini sy'n chwarae rhan mewn gwasanaethau cymorth ieuencid neu'n eu derbyn hyd at 25 oed, a'r rhai sy'n gadael gofal. Maent hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a chytuno ar y CPPHI, sef y datganiad strategol allweddol sy'n manylu ar sut bydd lles yr holl blant a phobl ifanc yn yr ardal yn cael ei wella.

Yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am y trefniadau hyn, gan weithio gyda'i bartneriaid yng ngwasanaeth yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y tîm troseddau ieuencid, y Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG ac eraill, gan gynnwys ysgolion lleol a mudiadau gwirfoddol.

Hefyd, mae canllawiau'n darparu ar gyfer cyfarwyddwyr arweiniol ac aelodau awdurdodau lleol, a'u cymheiriaid mewn Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG, sydd â rôl i sicrhau bod cynllunio mewn partneriaeth yn digwydd yn effeithiol. Mae'n rhaid iddynt hefyd sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael dweud eu dweud, ac yn cael ymateb wrth i bartneriaid wneud penderfyniadau.

Mae hyn yn darparu, ym mhob ardal, unigolion y mae hybu gweithio mewn partneriaeth yn brif gyfrifoldeb iddynt. Mae ganddynt hefyd nifer o rolau ychwanegol, gan gynnwys sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu, bod partneriaethau'n asesu eu hunain yn rheolaidd, a bod yr Offeryn Archwilio Hunanasesu Lleol yn cael ei gwblhau i fesur a monitro cynnydd o'i gymharu â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (FfGC) (2005).

Cyhoeddwyd y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc cyntaf yn nhymor yr hydref 2008. Maent yn cwmpasu cyfnod tair blynedd ac yn ymgorffori'r cyn Gynlluniau Addysg Sengl a chynlluniau plant y gwasanaethau cyhoeddus. Mae Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i fod yn ofyniad statudol ar wahân, ond maent yn darparu sail ar gyfer y CPPHl ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n gyffredin iddynt.

Mae'r BCI yn tynnu ar brofiad Timau Troseddau Ieuenctid i ddarparu sail ar gyfer datblygu fframwaith ar gyfer gweithio amlasiantaeth.

Mae canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau fanylu ar eu strategaethau i ddarparu ar gyfer ystod o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Troseddwyr Ifanc yw un o'r prif grwpiau y nodir ei bod yn bosibl bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried bod gan droseddwyr ifanc yr un hawliau â'r holl bobl ifanc eraill yng Nghymru, gan gynnwys yr hawl i chwarae rhan, a chael dweud eu dweud pan fydd penderfyniadau'n effeithio ar eu bywydau. O ganlyniad, un o gydrannau allweddol ein dull o weithredu yw sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda throseddwyr ifanc yn cynorthwyo pob un fel bo angen, gan nodi eu hanghenion dysgu a datblygu cynllun dysgu unigol i ddiwallu'r anghenion hyn sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, gan ymgynghori ag asiantaethau sy'n bartneriaid statudol, roi cynllun cyfiawnder ieuenctid blynyddol ar waith sy'n disgrifio natur a graddfa troseddau pobl ifanc yn eu hardal, ynghyd â'r rhaglenni i fynd i'r afael â hyn. Mae angen i'r cynllun fanylu ar sut bwriedir darparu ac ariannu'r system cyfiawnder ieuenctid mewn ardal, pa gyfansoddiad fydd gan Dimau Troseddau Ieuenctid neu dimau maent yn eu sefydlu a sut bwriedir eu hariannu, sut bwriedir iddynt weithredu a pha swyddogaethau y byddant yn eu cyflawni.

Mae'n ofynnol dan Adran 28 Ddeddf Plant 2004 fod yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid statudol yn ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.

Mae trefniadau newydd hefyd yn cael eu sefydlu i ganiatáu i asiantaethau rannu gwybodaeth briodol am blant a phobl ifanc, a bydd hyn yn effeithio ar bob un o'r asiantaethau yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Hefyd, mae'n ofynnol yn Neddf Plant 2004 fod awdurdodau lleol yn sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant, sef olynwyr statudol y Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant. Ym mis Medi 2006, fe gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau ar y trefniadau newydd hyn, o'r enw Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004, i randdeiliaid allweddol y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â phlant a phobl ifanc.

Bydd partneriaid ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn cynnwys yr heddlu, y bwrdd prawf a'r TTI lleol, yn ogystal â chanolfannau hyfforddi diogel a charcharau sy'n cadw plant.

Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn ymwneud ag arolygu Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru.

### **Cylchlythyr Cyfarwyddyd Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Rhif: 47/2006**

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn edrych ar gynhwysiant a chymorth i ddysgwyr sydd o oedran ysgol gorfodol (er y bydd rhai elfennau'n berthnasol i bob dysgwr). Mae'n darparu cyngor ac yn manylu ar gyfrifoldebau am gynnal presenoldeb ac ymddygiad positif ar lefel uchel mewn ysgolion, a'r angen i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn addysg addas ac yn osgoi ymddieithrio o addysg. Mae hefyd yn edrych ar addysg a ddarperir y tu allan i amgylchedd yr ysgol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfarwyddyd i ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid sy'n ymwneud â chynhwysiant a chymorth i ddisgyblion. Ei nod yw darparu fframwaith ar gyfer cynhwysiant, gan gynnwys dogfennau allweddol i gynorthwyo â datblygu dulliau awdurdodau lleol ac ysgolion o fynd ati i gynllunio, cefnogi a diwallu anghenion pob dysgwr. Mae wedi ei datblygu i alluogi ychwanegu cyfarwyddyd pellach dros amser ac i ganiatáu i bobl broffesiynol ym maes addysg gyrchu cyfarwyddyd ar faterion penodol fel ymddygiad, presenoldeb a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae mwy o wybodaeth a chrynodebau ar gael yn [www.wales.gov.uk/inclusionandpupilsupport](http://www.wales.gov.uk/inclusionandpupilsupport).

### **Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid**

Dan Adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, cael rhywun arall i'w darparu, neu gymryd rhan yn eu darparu i alluogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i:

- gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant;
- manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth;
- chwarae rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol yn eu cymunedau.

Mae Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) (2002) a'r Canllawiau cysylltiedig, "*Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru*" yn manylu ar ddisgwyliadau LICC ar gyfer cydweithredu amlasiantaeth lleol er mwyn

sicrhau bod ystod gydlynol o wasanaethau a chymorth yn cael eu cyflenwi i'r holl bobl ifanc (11-25) yn eu hardal, gan gydweithio'n agos â phobl ifanc.

Mae'r Canllawiau hefyd yn nodi bod LICC yn disgwyl i'r holl bobl ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 25 oed gael yr hawl sylfaenol gyffredinol i allu manteisio ar:

- ddysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'u llunio'n benodol i ddiwallu eu hanghenion;
- sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac sy'n hybu cynhwysiant cymdeithasol;
- ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar;
- gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd da sy'n ymatebol ac yn hygyrch;
- cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol, arbenigol a gwasanaethau cynorthwyo a chwmsela myfyrwyr;
- cyngor a chymorth personol – lle bynnag a phryd bynnag y mae eu hangen ac ar fformatau priodol – gyda rheolau sylfaenol eglur ar gyfrinachedd;
- cyngor ar iechydd, budd-daliadau tai a materion eraill sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau hygyrch a chroesawgar;
- cyfleoedd adloniadol a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch;
- profiadau chwaraeon, artistig, cerddorol ac awyr agored i ddatblygu doniau, ehangu gorwelion a hybu safbwyntiau cytbwys, gan gynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol;
- yr hawl i gael pobl yn ymgynghori â nhw, i chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau, i ddweud eu dweud ar yr holl faterion sydd a wnelo â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau;

### ***Mewn amgylchedd lle mae yna:***

- ffocws positif ar gyflawni'n gyffredinol ac ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu;
- ffocws ar feithrin gallu pobl ifanc i ddod yn annibynnol, gwneud penderfyniadau a chwarae rhan yn y broses ddemocratig;
- dathliad o lwyddiannau pobl ifanc.

Mae'r Canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd (2008/09).

### **Llwybrau Dysgu 14-19 Cymru**

Ymrwymiad yw Llwybrau Dysgu 14-19 i weddnewid y ddarpariaeth dysgu ar gyfer yr holl bobl ifanc yng Nghymru. Mae Llwybrau Dysgu'n mynd i'r afael â'r angen am ddull mwy hyblyg a chytbwys o drin addysg pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed, gan

ddarparu ystod ehangach o brofiadau a fydd yn addas i anghenion amrywiol pobl ifanc Cymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol o drawsnewid y ddarpariaeth 14-19 yng Nghymru. Rydym yn dymuno gweld:

*'95 y cant o bobl ifanc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod ar gyfer gwaith sgiliau-uchel neu addysg uwch erbyn 2015'.*

Mae Llwybrau Dysgu yn cynnwys cyfuniad o chwe elfen allweddol a fydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau, dros amser, bod pawb sy'n dysgu yn cael y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu i ddiwallu eu hanghenion orau.

Mae'r elfennau allweddol hefyd yn galluogi pobl sy'n dysgu i gael y cymorth a'r arweiniad y mae arnynt eu hangen i wireddu eu potensial. Y chwe elfen allweddol yw:

- Llwybrau Dysgu unigol i ddiwallu anghenion pob dysgwr;
- rhagor o ddewis a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu;
- Craidd Dysgu sy'n dechrau pan fydd y bobl ifanc yn 14 ac yn para hyd nes y byddant yn 19, ble bynnag y maent yn dysgu;
- cymorth Anogwr Dysgu;
- cyfle i gael cymorth personol; a
- chynghor ac arweiniad diduedd am yrfaeodd.

Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn annog rhagor o bobl ifanc i wireddu eu potensial fel y byddant wedi'u harfogi'n well ar gyfer byd gwaith ac yn ddinasyddion mwy gwybodus a gweithgar. Bydd yn gwneud hyn trwy helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn ennill gwell cymwysterau a bod cyfran uwch o bobl ifanc 16 oed yn mynd ymlaen i ddysgu mwy ym myd addysg a hyfforddiant, trwy gynnig rhagor o ddewis, hybu cyfle cyfartal a thrwy helpu i gyflawni *'Ymestyn Hawliau'*.

### **Ymwneud plant a phobl ifanc â gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau**

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio i wireddu hawliau plant a hawliau dynol i'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru, mae'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn cael cyfleoedd i gyfrannu at wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithiol ar eu bywydau, a chael dweud eu dweud. Mae wedi mabwysiadu diffiniad cryno i egluro hyn yn haws:

*"Ystyr cyfranogaeth yw bod gennyf yr hawl i gael fy nghynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau neu gynllunio ac adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis."*

Mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru fod â Strategaeth Cyfranogiad Lleol ar waith erbyn diwedd mis Hydref 2008.



Daeth Cyngorau Ysgol yn ofyniad statudol ar gyfer pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru yn 2005, gan ddisgwyl i gyngorau ysgol gynnal eu cyfarfod cyntaf dan y trefniadau newydd erbyn 1 Tachwedd 2006. Mae'r datblygiad hwn yn rhan o broses barhaus o gynorthwyo disgyblion i chwarae rhan weithgar yn eu dysgu a'u hamgylchedd dysgu, ar y sail y bydd disgyblion sy'n chwarae rhan gyfannol ac effeithiol ym mywyd a threfniadaeth eu hysgol yn gwella effeithiolrwydd yr ysgol a dysgu'r rheini sy'n ei mynychu. I gael mwy o wybodaeth, gwelwch: [www.schoolcouncilswales.org.uk](http://www.schoolcouncilswales.org.uk).

Nid yw'r Rheoliadau Cyngorau Ysgol yn berthnasol i Gartrefi Diogel i Blant. Er hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl gweld unrhyw Gartref Diogel i Blant yng Nghymru yn rhoi egwyddorion cyfranogiad effeithiol disgyblion ar waith, cyn belled ag mae hyn yn rhesymol ac yn ymarferol yng nghyd-destun amgylchedd diogel. Byddem yn disgwyl gweld y Cartref Diogel i Blant a'r PPPHl leol yn cydweithio â phobl ifanc sy'n byw yn y Cartref Diogel i Blant i archwilio potensial dull cyfranogol o drin dysgu, ac i gymryd camau i'w roi ar waith fesul tipyn. Yn wir, fe allai hyn gynnwys cyngor ysgol neu fforwm ieuencid ar gyfer y Cartref Diogel i Blant, gan weithio ar y canllawiau y manylir arnynt yn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad.

### **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru**

Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* a gyhoeddwyd yn 2006 yn cydnabod bod yna gorff o wybodaeth sydd wedi'i hen sefydlu ac a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ysgolion a gwella ysgolion. Daw'r dystiolaeth ryngwladol o fwy na 50 o wledydd, ac mae wedi'i seilio'n gadarn ar egwyddorion tegwch ac ansawdd. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cynrychioli ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i roi'r wybodaeth hon ar waith yn amgylchiadau penodol Cymru, fel rhan fawr o'n hymgyrch tuag at wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: <http://wales.gov.uk/dcells/news/educationskillsnews/schooleffectivenessframework/schooleffectiveness?skip=1&lang=cy>.

### **Mentrau cysylltiedig allweddol**

#### **Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan**

Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yw canlyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ac asiantaethau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu strategaeth sy'n darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer atal troseddu ac aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i ofyniad i ystyried hawliau'r unigolyn ifanc yn sail i'r gwaith hwn. Yn yr hirdymor, ei nod yw sicrhau lleihad gwirioneddol a sylweddol yng nghyfradd y troseddwyr ifanc yng Nghymru.

## Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan Cynllun Cyflenwi 2009-2011

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ad-drefnu'r modd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, BCI a'n partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r amcanion a restrir yn y *Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan*. Rydym wedi nodi chwe maes blaenoriaeth y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r modd y mae'r BCI yn monitro'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru wedi'i deilwra benodol i gyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn. Rydym wedi addasu nifer y dangosyddion perfformiad cyfiawnder ieuencid i gyfateb i'n meysydd blaenoriaeth ac wedi ailgynllunio dangosyddion sy'n berthnasol i feysydd polisi datganoledig gan sicrhau eu bod yn mesur cymaint ag sy'n bosibl o ganlyniadau go iawn i blant. At hynny, rydym wedi gwneud yn siŵr, lle bynnag y gallem, y caiff Set Dangosyddion Cyfiawnder Ieuencid Cymru (SDCIC) ei chynrychioli mewn fframweithiau perfformiad eraill er mwyn hyrwyddo perchnogaeth uwch i'n hamcanion ar lefel leol. (BCI 2009)

### Polisi Ariannu a Chynllunio

#### Y fframwaith ariannu a chynllunio presennol

Mae'r **BCI** yn gyfrifol am gomisiynu a phrynu lleoedd gwarcheidiol ac am leoli pobl ifanc yn y ddalfa. Mae'r BCI hefyd yn gosod safonau ac yn monitro perfformiad y system cyfiawnder ieuencid, gan gynnwys ym maes addysg a hyfforddiant.

- Ar hyn o bryd, mae addysg a hyfforddiant ar gyfer troseddwy'r ifanc yn y ddalfa ieuencid yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cynllunio a'u hariannu i raddau helaeth ar wahân i addysg 'y brif ffrwd' (h.y. addysg ar gyfer pobl ifanc sy'n dysgu yn y gymuned mewn ysgolion, colegau a darparwyr amgen ac ati). Yn achos pobl ifanc yn sector y brif ffrwd, mae addysg a hyfforddiant yn cael eu cynllunio a'u hariannu gan awdurdodau lleol (ar gyfer y rheini sydd o oedran ysgol gorfodol a'r rheini sy'n dysgu mewn 6<sup>ed</sup> dosbarth), a chan y Cyngor Dysgu a Sgiliau ar gyfer y rheini sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol sy'n dysgu yn y sector addysg bellach.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu arian i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yng Nghymru. Daw ariannu ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion drwy grant penodol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r rhan fwyaf o addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.
- Y trefniadau presennol sy'n berthnasol i bobl ifanc y mae'r BCI wedi'u lleoli yn y ddalfa mewn Cartrefi Diogel i Blant yw bod y BCI yn dal contractau â gweithredwyr Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddi Diogel. Mae contractau wedi'u seilio ar bris 'fesul gwely' ac yn cynnwys gofynion ar gyfer darparu addysg a sgiliau. Gall gweithredwyr Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddi Diogel ddewis i ddarparu addysg yn uniongyrchol, neu gallant lunio partneriaethau/is-gontractau â darparwyr dysgu i gyflenwi addysg yn y ddalfa.

## Newidiadau yn y dyfodol i'r fframwaith cynllunio ac ariannu

- Ym mis Mawrth 2008, fe ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar Bapur Gwyn “*Raising Expectations: Enabling the system to deliver*” a gynigodd **drefniadau ariannu a chynllunio newydd ar gyfer dysgu cyn-19 ac ôl-19** yn Lloegr, yn ogystal â rhai newidiadau posibl ar gyfer Cymru.

Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynnig i **roi'r cyfrifoldeb arweiniol i awdurdodau lleol am addysg i bobl ifanc yn y ddalfa ieuencid**. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mehefin 2008, a chyhoeddodd Llywodraeth EM grynodeb o ymatebion ac ymateb i faterion a godwyd ar 29 Gorffennaf 2008 (ar gael yn <http://www.dcsf.gov.uk/14-19/index.cfm?go=site.home&sid=51&pid=419&ctype=None&ptype=Contents>).

Ymrwymodd Llywodraeth EM i fwrw ymlaen â hyn o fewn y **Cynllun Gweithredu Troseddau Ieuencid** (a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2008 – (ar gael yn <http://www.homeoffice.gov.uk/documents/youth-crime-action-plan/>)).

Bydd gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio, ariannu a chomisiynu addysg yn y ddalfa ieuencid yn newid arwyddocaol i lawer o'r sector. Bydd yn golygu y bydd modd, am y tro cyntaf, gwneud trefniadau cynllunio ac ariannu ar gyfer addysg a hyfforddiant troseddwr ifanc yn y ddalfa yn gyson â threfniadau mewn addysg 'y brif ffrwd' ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y newidiadau'n cael eu cynllunio i sicrhau bod yna rolau a chyfrifoldebau eglurach ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc yn y ddalfa, a mwy o gysonder yn y cymorth a'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt symud i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid, symud trwyddi a symud allan ohoni. Mae Llywodraeth EM yn gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid a rhanddeiliaid yn Lloegr i gytuno ar y fersiwn derfynol o'r model gorau ar gyfer cyflenwi trwy awdurdodau lleol, a fydd yn cael ei alinio â'r trefniadau newydd ar gyfer cynllunio ac ariannu addysg yn sector y brif ffrwd. Bwriedir i'r newidiadau i'r cynllunio a'r ariannu ar gyfer sector y brif ffrwd ddod i rym yn Lloegr o fis Medi 2010, ac mae Llywodraeth EM o'r farn y bydd buddion sylweddol i ddilyn yr un amserlen wrth weithredu'r newidiadau i gynllunio ac ariannu addysg yn y ddalfa ieuencid.

Mae'r Cynllun Gweithredu Troseddau Ieuencid y sonnir amdano uchod yn cwmpasu ystod o faterion ar gyfer mynd i'r afael â throsedd ieuencid, gan gynnwys: atal trosedd ieuencid; lleihau aildroseddu a gwella ailsefydlu troseddwr ifanc. Mae'r ddogfen hefyd yn manylu mwy ar ymrwymiad y llywodraeth i wella addysg a hyfforddiant. Ochr yn ochr â'r ymrwymiad i wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am addysg a hyfforddiant yn y ddalfa ieuencid, dywedodd Llywodraeth EM y byddai hefyd:

- yn datblygu trefniadau rheoli perfformiad newydd sy'n canolbwyntio mwy ar gynnydd a chyflawniad;
- yn ystyried sut rydym yn diwallu anghenion addysgol arbennig ac anghenion cyfathrebu troseddwr ifanc orau;

- yn datblygu fframwaith cyflenwi cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant yn y ddalfa, gyda gofynion ar gyfer trefniadau lleol rhwng partneriaid yn Lloegr;
- yn datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid ar addysg ar gyfer troseddwyr ifanc yn Lloegr;
- yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth gwella ansawdd;
- yn ymgynghori ar becyn mwy cynhwysfawr o gymorth i blant sy'n gadael y ddalfa, gan gynnwys cynlluniau llwybr ar gyfer pobl ifanc, sydd wedi'u cysylltu â Chynlluniau Addysg Personol.

Bwriedir i'r cynlluniau hyn sicrhau bod troseddwyr ifanc yn cael addysg sy'n debyg i'r addysg y mae pobl ifanc yn sector y brif ffrwd yn ei chael. Mae'n rhaid iddi ddiwallu anghenion personol a ffurfio rhan o brofiad dysgu cyson, gan feithrin adsefydlu llwyddiannus a chyfrannu at leihau aildroseddu.

Byddwn yn disgwyl i Gartrefi Diogel i Blant yn Lloegr weithio gyda'r llywodraeth, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, y BCI a phartneriaid ehangach i helpu i ddarparu sail ar gyfer datblygu a gweithredu'r newidiadau hyn, ac i sicrhau profiad addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer yr holl blant ifanc sydd dan warchodaeth mewn Cartrefi Diogel i Blant.

Bydd trefniadau ar wahân yn cael eu datblygu rhwng y BCI a LICC ar gyfer Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio'n agos â'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) a'r rhanddeiliaid perthnasol o ran goblygiadau posibl i Gymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar: <http://services.parliament.uk/bills/2008-09/apprenticeshipsskillschildrenandlearning.html>



## Y cwricwlwm addysg a sgiliau

Sylwch: Mae'r adrannau a ganlyn yn cyfeirio at 'y Cartref Diogel i Blant' – mae'r gofynion yn berthnasol i weithredwr y Cartref Diogel i Blant, a gall ddewis ymarfer y gofynion hyn trwy'r 'Pennaeth Addysg', y 'Rheolwr Addysg' a'i staff neu, lle mae'r ddarpariaeth addysg yn cael ei his-gontractio, trwy'r darparwr addysg.

### 1. Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd

#### Cefndir

Mae angen annog yr holl bobl ifanc yn y ddalfa i ddatblygu synnwyr o gyfrifoldeb a hunanddisgyblaeth i'w paratoi ar gyfer yr heriau a fydd yn eu hwynebu pan fyddant yn ailymuno â'r gymuned. Dylai gwaith cyfarwyddyd gynyddu gallu'r bobl ifanc i feddwl yn fwy penderfynol am y dyfodol, gwella'u sgiliau penderfynu, cynyddu eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfreithlon, a datblygu eu strategaethau ymdopi.

Mae partneriaethau rhwng yr holl ddarparwyr ac asiantaethau perthnasol yn hanfodol i sicrhau pecyn cymorth cydlynol i bobl ifanc. Mae ar bobl ifanc angen gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd hygyrch ar gyfleoedd a chymwysterau addysg a hyfforddiant, a chyflogaeth yn y dyfodol ac, yn achos pobl ifanc hŷn, y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer dysgu, fel Lwfansau Cynhaliaeth Addysg.

Dau brif amcan y cymorth hwn yw chwalu rhwystrau rhag dysgu a chynorthwyo'r unigolyn ifanc i ddatblygu ei allu i chwarae rhan a gwneud cynnydd yn fwy effeithiol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan hanfodol ym maes Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd.

Rhaid i Gartrefi Diogel i Blant a gwasanaethau dysgu yn y ddalfa sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn hygyrch i'r holl bobl ifanc yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid. Gellir cyrchu cyfarwyddyd ar arfer awgrymedig yn: [www.yjb.gov.uk/cy/](http://www.yjb.gov.uk/cy/)

Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc gynllun dysgu unigol a'u bod yn ymwneud â datblygu ac adolygu eu cynllun. Dylid rhoi cofnod i blant a phobl ifanc o'u cynnydd a'u cyflawniad, a dylid defnyddio hwn i bwysu a mesur eu cyflawniadau yn y gorffennol a'u sgiliau cyfredol, a'i ddefnyddio wrth ddatblygu cynlluniau a nodau dysgu a gyrfa ar gyfer y dyfodol y cytunwyd arnynt â'r unigolyn ifanc.

## Gofynion

0101	Bydd pob unigolyn ifanc yn paratoi cyfraniadau at ei Gynllun dysgu unigol (CDU), ar y cyd â'i weithiwr cymorth personol/gweithiwr allweddol/athro perthnasol. Asesir sgiliau a galluoedd cyfredol yr holl bobl ifanc a chaiff rhaglenni a strategaethau eu cynnwys yn eu Cynlluniau Dedfryd i wella'u sgiliau. Bydd y cynghorydd Gyrfu Cymru/Anogwr Dysgu/Gweithiwr Cymorth Personol/Gweithiwr Addysg TTI, a'r pennaeth addysg yn sicrhau bod y CDU yn cael ei integreiddio â'r broses cynllunio dedfryd.
0102	Gweithredir system tiwtoriaid personol. Bydd gan bob unigolyn ifanc Anogwr Dysgu/Gweithiwr cymorth personol. Gall hwn neu hon fod yn athro, yn Gynorthwydd Cymorth Dysgu neu'n swyddog gofal sydd wedi'i hyfforddi'n briodol. Bydd grwpiau tiwtor yn cynnwys 10 o bobl ifanc ar y mwyaf i 1 ymarferwr. Anogwr Dysgu/Gweithiwr cymorth personol. Bydd hwn neu hon yn sicrhau bod cynlluniau unigol ar y trywydd cywir a bod cysylltiadau priodol yn cael eu llunio rhwng cynllunio dedfryd a gweithgareddau addysg a hyfforddiant.
0103	Mae angen i'r Cartref Diogel i Blant, gan drafod telerau â'r TTI/Anogwr Dysgu, Cydlynedd PPPH lleol a chynghorydd Gyrfu Cymru, sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd (GCCh) ar gael i bobl ifanc. Dylai ymarferwr sydd â chymwysterau priodol gefnogi hyn yn unol ag anghenion personol y plentyn/unigolyn ifanc. Mae Gyrfu Cymru ar-lein a Clic ar-lein yn adnoddau GCCh cyfrifiadurol defnyddiol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.
0104	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod cynlluniau dysgu unigol yn cael eu cynnal ar gynnydd a chyflawniad pobl ifanc, a dylid defnyddio'r rhain i bwysu a mesur eu cyflawniadau yn y gorffennol a'u sgiliau cyfredol. Dylai pobl ifanc eu hunain ymwneud â'r broses hon, a dylid ei defnyddio wrth ddatblygu cynlluniau a nodau dysgu a gyrfu ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig bod y CDU yn cael ei drosglwyddo i'r gymuned, gyda'r rhanddeiliaid perthnasol yn ymwneud â chontinwrm cymorth cyn ac ar ôl rhyddhau.
0105	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod gan gyrsiau a rhaglenni nodau neu lwybrau dilyniant wedi'u nodi'n eglur a, lle bo'n briodol, dylid eu cysylltu â sgiliau ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gyrfu yn y dyfodol. Dylai pob rhaglen sy'n darparu sgiliau a chymwysterau nodi llwybrau dilyniant. Dylai pob CDU nodi llwybrau dilyniant posibl o gychwyn cyntaf y rhaglen ddysgu.
0106	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod yr holl staff yn helpu pobl ifanc i wneud yr wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygir trwy eu rhaglenni dysgu'n berthnasol i'w dyfodol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.

0107	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn hwyluso cyswllt â TTI lleol y sefydliad a TTI cymuned cartref yr unigolyn ifanc, a bydd yn trafod â'r gwasanaethau addysg a chymorth perthnasol fel bo angen i sicrhau bod y GCCh priodol yn cael eu darparu. Dylai'r Cynghorydd Gyrfa/cynghorydd gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd/cynghorydd Gyrfa Cymru sicrhau bod yna gysylltiadau effeithiol â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn ardal cartref yr unigolyn ifanc. Rhaid cysylltu â'r Cynghorydd Gyrfa/cynghorydd gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd/ cynghorydd Gyrfa Cymru dynodedig o leiaf mis cyn y cyfnod pontio i'r gymuned. Rhaid trefnu apwyntiad â'r Cynghorydd Gyrfa/cynghorydd gwybodaeth cyngor a chyfarwyddyd lleol cyn pen y pum diwrnod cyntaf ar ôl rhyddhau'r unigolyn ifanc i'r gymuned, gyda chymorth digonol i sicrhau ei fod yn ei fynychu (gan gynnwys cysylltu â'r TTI).
0108	Dylai'r Cartref Diogel i Blant enwebu rhywun dynodedig a fydd yn cael hyfforddiant penodol yn gysylltiedig â'r system gofal ac addysg.
0109	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn hwyluso cyswllt â'r Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr awdurdod Cartref a Lletyol os yw'r unigolyn ifanc wedi bod yn y system ofal neu os yw'n parhau i fod ynddi.





## 2. Asesu'r Dysgwr

### Cefndir

Rhaid i gymorth ar gyfer dysgu fod wrth galon pob gweithgaredd asesu, cynllunio dedfryd ac adolygu. Rhaid i ni sicrhau bod addysg a hyfforddiant amser llawn addas ar gael i blant a phobl ifanc, a'u bod yn gallu cymryd rhan ynddynt, gwneud cynnydd ynddynt a chyflawni ynddynt, gyda chymorth anffurfiol ychwanegol lle bo'n briodol sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer bywyd a gwaith mewn lleoliadau gwarcheidiol a phan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau. Mae angen i'r broses gynllunio ystyried anghenion personol a nodau dysgu a chyflogaeth pob unigolyn ifanc, ac ystyried ei ddysgu a'i gyflawniad blaenorol. Dylai'r adolygiad cynllunio barhau pan fydd unigolyn ifanc yn dychwelyd i'r gymuned, gan sicrhau siwrnai ddysgu gyson sy'n parhau i feithrin cynnydd a chyflawniad yr unigolyn ifanc.

Mae'r broses asesu, cynllunio ac adolygu yn ailadroddol ac yn gosod yr unigolyn ifanc yng nghanol yr holl weithgareddau. Mae'n broses ddatblygu ac mae'r asesiad yn dod yn fwyfwy manwl ym mhob cam.

Mae angen i bob un o'r rheini sy'n gweithio gyda'r unigolyn ifanc trwy gydol y ddedfryd feddu ar wybodaeth a data proffesiynol, diweddar a rheolaidd am gyrhaeddiad, arddulliau dysgu, anawsterau dysgu a hefyd am ymddygiad yr unigolyn ifanc. Mae diagnosis dibynadwy o anghenion dysgu'r unigolyn ifanc ac asesiad o'r cynnydd a wnaed yn hollbwysig wrth sefydlu Cynllun dysgu unigol priodol ac wrth drafod hyn â'r bobl ifanc.

Mae'r broses asesu, cynllunio ac adolygu gyffredinol yn cynnwys cwblhau: proffil ASSET; asesiadau eraill sy'n rhan o'r broses ymsefydlu; cynllun dysgu unigol; ffurflenni adolygu; a gwybodaeth o unrhyw ddarpariaeth dedfryd gymunedol.

Mae hon yn broses barhaus sy'n cwmpasu elfennau gwarcheidiol a chymunedol dedfrydau. Fe'i cysylltir yn agos â phroses asesu addysgol ffurfiol sydd â phwyslais penodol ar lythrennedd a rhifedd, ac mae'r broses ffurfiol hon yn ei chefnogi. Mae'n cychwyn pan fydd yr unigolyn ifanc yn cychwyn cyfnod yn y ddalfa, ac yn cael ei monitro trwy gydol rhannau gwarcheidiol a chymunedol y ddedfryd ac yn cael ei cwblhau ar ddiwedd y ddedfryd. Y bwriad yw cael system integredig a chyfrifiadurol y dylid ei defnyddio i gofnodi a throsglwyddo gwybodaeth asesu, cynllunio ac adolygu hanfodol ar draws yr ystâd ddiogel a'r gymuned.

### Sgrinio

Mae'n ofynnol i'r Timau Troseddau leuenctid ddarparu proses sgrinio sy'n gysylltiedig ag *Asset*, neu *eAsset* lle bo hwnnw ar gael.

### Asesiad Cychwynnol

Dylai asesiadau cychwynnol ac asesiadau eraill ddarparu sail manwl gywir ar gyfer cynllunio neu adolygu addysg, hyfforddiant neu Raglenni Ymddygiad Troseddol priodol. Mae Asesiad Cychwynnol yn darparu asesiad manylach o sgiliau'r unigolyn.

Defnyddir canlyniadau'r asesiad cychwynnol i leoli dysgwyr ar raglenni dysgu priodol. Mae gan bob unigolyn ifanc yr hawl i gael asesiad cychwynnol. Mae deunyddiau ar gael ar gyfer asesiad cychwynnol Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Mae hefyd yn bwysig bod pobl ifanc Cymraeg eu mamiaith yn cael y dewis a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai sefydliadau a Thimau Troseddau Ieuenctid ddefnyddio offer asesu priodol, sy'n ategu'r asesiad a wnaed gan y sefydliad blaenorol, a dylent sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi yn y Cynllun Dysgu unigol.

### **Asesiad Diagnostig**

Mae Asesiad Diagnostig yn broses asesu drylwyr y mae athrawon hyfforddedig yn ei chwblhau ar y cyd â dysgwyr. Mae'r broses asesu diagnostig yn defnyddio canlyniadau'r asesiad cychwynnol fel ei man cychwyn. Dylid dewis deunydd ar gyfer asesiad diagnostig yn ddetholus ac yn unol â diddordebau, oedran a nodau'r dysgwr yn hytrach nag mewn bloc. Defnyddir canlyniadau asesiad diagnostig i ddarparu sail a strwythur ar gyfer cynllun dysgu a rhaglen ddysgu'r unigolyn.

Mae Dangos Llwyddiant yn ddull newydd o fesur cynnydd a chanlyniadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae wedi'i seilio ar y gydnabyddiaeth bod pobl ifanc yn cyflawni llawer mwy trwy eu hymwneud â rhaglenni a pholisïau nag mae dulliau mwy traddodiadol yn ei fesur ar hyn o bryd, sef dulliau sy'n canolbwyntio ar fesuriadau sy'n edrych ar asesiad a chyrraedd y bennaf.

Nod y prosiect yw datblygu cyfres o ddangosyddion, offer a chanllawiau i fesur cyflawniadau, datblygiad a chynnydd Pobl Ifanc mewn ystod o sefyllfaoedd. Bydd y dangosyddion a'r offer yn llunio fframwaith ar gyfer dynodi newidiadau yn agweddau meddwl a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc.

Mae'r dull wedi bod yn cael ei ddatblygu am 3 blynedd, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei gyflwyno mewn nifer o wahanol leoliadau dysgu fel rhan o gynllun peilot. Gellir cael mwy o wybodaeth o: <http://demonstratingsuccess.co.uk/site/>.

Mae enghreifftiau o ddeunyddiau asesu diagnostig ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac ESOL sy'n cyfeirio at y dogfennau cwricwlwm a safonau cenedlaethol yn cynnwys:

*The Skills for Life Diagnostic Materials for Literacy, Numeracy and ESOL (DCSF), gan gynnwys deunyddiau sy'n dwyn sylw at dyslecsia posibl;*

*Basic and Key Skills Builder (Coleg Gorllewin Swydd Nottingham)*

ac mae <http://www.bksb.co.uk/> yn offeryn asesu y mae rhai ysgolion yng Nghymru yn ei ddefnyddio.

Rhaid i Gartrefi Diogel i Blant gadw i fyny â datblygiadau ym mhob maes asesu llythrennedd a rhifedd a'u hymgorffori i sicrhau arfer addawol wrth weithio gyda phobl ifanc yn benodol.

Rhaid i asesydd dyslecsia arbenigol hyfforddedig fod o fewn cyrraedd hawdd i staff Cartrefi Diogel i Blant. Rhaid darparu modd o asesu dyslecsia sydd mor gost-effeithiol â phosibl.

Mae'r dulliau mesur perfformiad isod yn cyfeirio at asesu dyslecsia trwy:

- a. sgrinio dyslecsia (er enghraifft, trwy ddefnyddio *Dyspel* a modiwl Sgiliau Ffonolegol *Sgiliau Bywyd*, a ddylai bara tua hanner awr);
- b. asesiad trylwyr (er enghraifft, trwy ddefnyddio'r ystod o ddeunyddiau asesu dyslecsia *Sgiliau Bywyd* sy'n para rhwng tua 1 awr ac 1.5 awr gan ddibynnu ar y lefel);
- c. asesiad dyslecsia ffurfiol ac arbenigol gan rywun hyfforddedig i bobl ifanc sydd â dangosyddion dyslecsia difrifol (er enghraifft, y rheini sydd â sgôr 1-3 ym modiwl sgiliau ffonolegol *Sgiliau Bywyd*, neu sgiliau sy'n dechrau ymddangos yn unig yn yr asesiad dyslecsia *Sgiliau Bywyd* trylwyr).

Rydym yn disgwyl i bawb sydd a wnelo â darparu dysgu gadw i fyny â datblygiadau a'u hymgorffori i sicrhau arfer da.

### **Asesiad Cyfunol**

Bydd y darparwr dysgu'n sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar gyfer asesiad cyfunol ar adegau priodol trwy gydol y rhaglen ddysgu. Pan mae cyrsiau'n cael eu hachredu, dylai cymwysterau a dyfarniadau fod yn rhai sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Pan ddechreuir ar gymwysterau yn y ddalfa nad ydynt yn cael eu cwblhau, bydd y darparwr dysgu'n gwneud pob ymdrech, ar y cyd â'r TTI a phartneriaid ehangach, i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i barhau â'r rhain yn y gymuned neu mewn sefydliad diogel arall pe baent yn cael eu trosglwyddo.

### **Asesiad Dysgu cysylltiedig â Gwaith**

Defnyddio'r offeryn priodol i sicrhau bod dysgu cysylltiedig â gwaith yn berthnasol.

## **Gofynion**

0201	Dylai Cartrefi Diogel i Blant sicrhau bod asesiad cychwynnol effeithiol ar waith. Dylai'r darparwr dysgu integreiddio ASSET â'i brosesau asesu ei hun. Dylai pawb sy'n cael eu derbyn sydd wedi'u dedfrydu gael asesiad cychwynnol cyn gynted ag ystyrir hynny'n addas (nid yw hyn yn angenrheidiol os cafwyd asesiad yn ystod y 3 mis diwethaf a bod y dystiolaeth ar gael). (DS: gall rhai asesiadau ddod o sefydliad gwarcheidol blaenorol, y TTI, neu ddarparwr dysgu blaenorol fel ysgol/coleg).
0202	Dylid cynnal asesiadau addysgol safonol a chyfunol â'r holl bobl ifanc sy'n cychwyn cyfnod yn y ddalfa cyn gynted ag ystyrir hynny'n addas, yn union cyn eu rhyddhau ac ar ddiwedd y ddedfryd (oni bai bod cynnydd wedi'i ddangos trwy gyflawni cymhwyster). Rhaid i'r asesiadau hyn gwmpasu'r dimensiynau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"><li>• llythrennedd a rhifedd;</li><li>• arddulliau dysgu a ffefrir ac anghenion dysgu;</li><li>• agweddau/cymhelliant/ymddygiad.</li></ul>

0203	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod asesiad diagnostig effeithiol ar waith, gan gynnwys asesiad ar gyfer llythrennedd, iaith a rhifedd. Dylid cynnal asesiad diagnostig ar bob unigolyn ifanc cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl cychwyn cyfnod yn y ddalfa. Ni ddylai sesiynau asesu llythrennedd a rhifedd fod yn hwy na 45 munud.
0204	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn asesu addasrwydd yr unigolyn ifanc ar gyfer dysgu cysylltiedig â gwaith, ac yn gwerthuso addasrwydd rhaglenni addysg a hyfforddiant i fodloni oedran, lefelau cyrhaeddiad, dyheadau a nodau dysgu pellach a chyflogaeth y dysgwr.
0205	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill, gan gynnwys staff addysg, staff gofal, y rheini mewn sefydliadau diogel eraill, darparwyr dysgu cymunedol a Thimau Troseddau leuentid er mwyn sicrhau bod asesiadau'n cael eu hailadrodd cyn lleied â phosibl ac i gyfnewid gwybodaeth berthnasol lle bo'n briodol.
0206	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod asesydd Dyslecsia arbenigol hyfforddedig ar gael i alluogi cynnal asesiad ffurfiol 'mewnol' lle nodir angen er budd gorau'r plentyn.
0207	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac asiantaethau allanol i gyfnewid gwybodaeth am gyfranogiad, cynnydd a chyflawniad addysgol y dysgwr, yn ogystal â'i arddulliau dysgu a'i anghenion penodol. Rhaid i Dimau Troseddau leuentid sicrhau bod yr holl wybodaeth addysgol berthnasol ar gael yn syth wedi i'r unigolyn ifanc gychwyn ei gyfnod yn y ddalfa. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth asesu flaenorol, ysgolion a/neu golegau a fynychwyd, cofnod presenoldeb cyn mynd i'r ddalfa, rhaglenni addysg a hyfforddiant a ddilynwyd, unrhyw ddatganiad o anghenion addysgu arbennig (AAA) ac unrhyw adroddiad gan seicolegydd ar anawsterau dysgu blaenorol, ac ati. Dylid anfon gwybodaeth a data at y TTI yn syth ar ôl i'r unigolyn ifanc adael y sefydliad diogel.
0208	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau cysylltiadau eglur rhwng canlyniadau asesiad a rhaglenni dysgu. Dylai ffeiliau cwrs pob athro gynnwys canlyniadau asesiad cychwynnol a diagnostig.
0209	Dylai pob Cynllun dysgu unigol fanylu ar gysylltiadau rhwng yr asesiad a'r rhaglen ddysgu. Bydd gan bob unigolyn ifanc Gynllun dysgu unigol y bydd yn cyfrannu at ei gynhyrchu, a bydd gan hwn dargedau ac amserlen bersonol ar gyfer y rhaglen sy'n gweddu orau i'w anghenion, ei alluoedd a'i ddoniau unigol.
0210	Bydd cynnydd ar bob cwrs, rhaglen a gweithgaredd yn cael ei fonitro a'i gofnodi fel bo'n berthnasol. Bydd cynnydd dysgu'r bobl ifanc yn cael ei fesur a'i gofnodi'n ffurfiol hanner ffordd trwy eu dedfryd warcheidol ac yn union cyn iddynt gael eu trosglwyddo o'r ddalfa i'r gymuned.
0211	Ni ddylai unrhyw unigolyn ifanc ddisgwyl yn ddiangen ar ôl yr asesiad cychwynnol cyn dechrau ar y cyrsiau priodol fel y'u nodwyd yn ei asesiad.

0212	Rhaid cynnal pob cyfarfod asesu a gosod targedau unigol mewn amgylchoedd priodol sy'n sicrhau preifatrwydd ac sydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth neu ardaloedd cymdeithasu eraill.
0213	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn ymwybodol o'r gofynion ailsefydlu fel y'u hamlinellir yn Elfennau Allweddol Arfer Effeithiol y BCI ar gyfer Ailsefydlu, ac yn cydymffurfio â'r rhain.
0214	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cadw i fyny â'r datblygiadau newydd yn y maes hwn ac yn ymgorffori mentrau newydd i sicrhau ansawdd da ac i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfartal â'r hyn sydd yn y gymuned.



### 3. Cynlluniau dysgu unigol

#### Cefndir

Mae'n rhaid i bob dysgwr fod â chynllun dysgu unigol (CDU) sy'n cwmpasu ei ddedfryd gyfan (yn y ddalfa ac yn y gymuned), a rhaid i Gartrefi Diogel i Blant gofnodi cynnydd a chyflawniadau'r unigolyn ifanc yn ystod ei amser yn y ddalfa, a rhannu'r wybodaeth hon â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol yn y gymuned pan fydd yr unigolyn ifanc yn cael ei ryddhau (i weithwyr TTI a darparwyr dysgu perthnasol). Rhaid i'r dogfennau hyn osod y dysgwr wrth galon y broses addysgu a dysgu. Dylid integreiddio'r CDU yn llawn â'r broses cynllunio dedfryd, sy'n cael ei darparu yn unol â safonau cenedlaethol y BCI. Mae'n rhaid i'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod aelod o'r staff addysg yn bresennol ym mhob cyfarfod ymsefydlu, cynllunio dedfryd ac adolygu.

Mae CDU yn cofnodi siwrnai ddysgu'r unigolyn ifanc trwy osod nodau dysgu'r dysgwr unigol dros gyfnod o amser penodol, y targedau llai i anelu atynt er mwyn cyflawni'r nodau hyn, a chanlyniadau adolygiadau rheolaidd lle trafodir a chofnodir cynnydd â'r dysgwr.

Dylai Cynlluniau dysgu unigol gynnwys:

- data am leoliadau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth cyn cychwyn cyfnod yn y ddalfa;
- gwybodaeth berthnasol am gefndir a phrofiad addysgol fel y'u disgrifiwyd trwy'r proffil ASSET;
- data asesiad cychwynnol a diagnostig sylfaenol ar lefelau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc ar ddechrau'r ddedfryd;
- targedau eglur yn ymwneud â datblygiad llythrennedd a rhifedd dros y ddedfryd gyfan, a fydd yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd;
- amserlen rhaglen dysgu a datblygu;
- cyfres o Gynlluniau dysgu unigol cyrsiau, gan gynnwys gweithgareddau cyfoethogi gydag amcanion tymor hir, nodau mesuradwy, dyddiadau ar gyfer adolygu cynnydd a lle i gofnodi cyflawniadau o'u cymharu â nodau a thargedau dysgu;
- gwybodaeth am arddulliau dysgu'r bobl ifanc;
- gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen;
- nodau addysgol, personol neu gymdeithasol eraill;
- tystiolaeth o gyfranogiad yr unigolyn ifanc mewn gweithgareddau dysgu a sgiliau, gan gynnwys cofnodion presenoldeb, dogn penodedig a phrydlondeb;
- tystiolaeth o gynnydd dysgu ar ddiwedd rhan warcheidiol y ddedfryd;



- gwybodaeth am ba leoliad addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth gaiff ei drefnu ar gyfer yr unigolyn ifanc pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ddalfa, a sut bydd yn parhau â'i ddysgu, gan gynnwys manylion y darparwr dysgu a fydd yn parhau ag addysg yr unigolyn ifanc, a'r sefydliadau a'r unigolion a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn ifanc yn dal ati i ddysgu;
- gwybodaeth am unrhyw gymwysterau ac unedau achredu a gyflawnwyd yn y ddalfa, gan gynnwys teitl llawn y dyfarniad, y corff dyfarnu a'r lefel a gyrhaeddwyd;
- tystiolaeth o gynnydd yr unigolyn ifanc fel y'i cofnodwyd yn ystod y ddedfryd warcheidiol;
- gan ddibynnu ar y cwrs, yn aml bydd yn cynnwys cofnodion o'r cyfweiliad cychwynnol, cofnodion yr athro o'r gweithgareddau a'r adnoddau ar gyfer pob targed, cofnodion o'r hyn a ddysgwyd yn ystod pob sesiwn ddysgu, cofnodion o adolygiadau parhaus o gynnydd/cyflawniad y dysgwr ac unrhyw dargedau newydd a osodir;
- bydd yr unigolyn ifanc a'r athro/hyfforddwr yn llofnodi'r CDU.

## Gofynion

0301	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod aelod o'r staff addysg yn bresennol yn y cyfarfodydd ymsefydlu, cynllunio dedfryd/hyfforddiant ac adolygu.
0302	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod y CDU yn cael ei integreiddio'n llawn â'r Cynllun Dedfryd.
0303	Mae'n rhaid i'r Cartref Diogel i Blant a'r sefydliad sicrhau bod Cynlluniau dysgu unigol (CDU) a chofnodion cynnydd a chyflawniad ar waith ar gyfer pob dysgwr. Dylid llunio CDU ar gyfer pob unigolyn ifanc cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl cychwyn cyfnod yn y ddalfa.
0304	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill, gan gynnwys sefydliadau diogel eraill (pan fydd pobl ifanc yn cael eu trosglwyddo) a Thimau Troseddau leuenctid er mwyn sicrhau bod asesiadau'n cael eu hailadrodd cyn lleied â phosibl.
0305	Dylai'r Cynlluniau Dysgu Unigol nodi'r ystod lawn o weithgareddau ar gyfer pob unigolyn ifanc, gan gynnwys: llyfrgell, gwaith cysylltiedig â throsedd, cyfoethogi, amser astudio personol, ac ati. Dylid rhoi llinellau cyfathrebu a chofnodi data effeithiol ar waith. Dylai'r holl bobl ifanc feddu ar Gynlluniau Dysgu Unigol sy'n cynnwys canlyniadau adolygiadau rheolaidd o gynnydd gyda'r athro/hyfforddwr ar y dyddiadau y manylir arnynt yn CDU y dysgwr.
0306	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod Cynlluniau Dysgu Unigol a chofnodion cyflawniad yn mynd ati i gefnogi dilyniant. Dylai pob CDU nodi llwybrau dilyniant posibl a llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn addas ar ddechrau'r ddedfryd.

0307	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i gyfnewid gwybodaeth am gyfranogiad a chynnydd addysgol y dysgwr, ac yn sicrhau bod y CDU yn cyfeirio at unrhyw gynlluniau blaenorol priodol a'i fod yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
0308	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod y CDU yn cynnwys manylion yr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a fydd yn cael eu trefnu ar gyfer yr unigolyn ifanc pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ddalfa, a sut bydd yn parhau â'i ddysgu. Dylai targedau a nodir yn y CDU gyfuno â chynlluniau eraill sy'n bodoli, fel y Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Gofal ar gyfer y rheini sydd yn y system ofal.
0309	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn ymwybodol o'r gofynion ailsefydlu fel y'u hamlinellir yn yr Elfennau Allweddol Arfer Effeithiol ar gyfer Ailsefydlu, ac yn cydymffurfio â'r rhain.
0310	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod yr unigolyn ifanc yn parhau â'i ddysgu trwy gydol y ddedfryd a bod y CDU yn adlewyrchu dau hanner y ddedfryd.
0311	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod Cynlluniau Dysgu Unigol yn cael eu trosglwyddo'n effeithlon i sefydliadau a phartneriaid perthnasol eraill. Dylid rhoi pob CDU i'r dysgwyr wrth iddynt gael eu trosglwyddo, a'u hanfon at y TTI, Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal lle bo'n briodol, a darparwr addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth newydd yn syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned.
0312	Bydd y darparwr dysgu'n cadw i fyny â'r datblygiadau newydd yn y maes hwn ac yn ymgorffori mentrau newydd i sicrhau addysg a hyfforddiant o ansawdd da ac i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfartal â'r hyn sydd yn y gymuned.



## 4. Y Cwricwlwm

### 4.1 Fframwaith y Cwricwlwm – Y Cwricwlwm Cymreig (gweler tud. 5)

#### Cefndir

- Mae helpu troseddwyr ifanc i wella'u sgiliau a datblygu sgiliau cyflogadwyedd yn rhan allweddol o adsefydlu llwyddiannus.
- Mae angen cwricwlwm sy'n cefnogi datblygiad personol pob unigolyn, sy'n helpu i fynd i'r afael â'r pethau sy'n achosi eu hymddygiad troseddol, ac sy'n lleihau'r risg o aildroseddu.
- Mae angen i'r cwricwlwm ystyried y bydd y canlynol yn berthnasol i rai troseddwyr ifanc:
  - ◆ bydd eu lefelau llythrennedd a rhifedd yn isel;
  - ◆ ni fyddant wedi bod mewn addysg a hyfforddiant amser llawn ers cryn amser;
  - ◆ byddant yn y ddalfa am gyfnod byr yn unig.
- Dylai cwricwlwm priodol a hyblyg fod ar gael sy'n bachu'r sylw ac sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc gael budd o addysg barhaus, a chynyddu eu hyder a'u gallu i ymgysylltu a chyflawni mewn addysg bellach pan fyddant yn cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.
- Dylai cyrsiau a rhaglenni gyfateb ag anghenion dynodedig y dysgwyr a hybu ei ddatblygiad personol.
- Dylai'r unigolyn ifanc dreulio rhan fawr o'r diwrnod yn dysgu, a dylai amser astudio preifat a Gweithgareddau Cyfoethogi allgyrsiol gyfoethogi dysgu ffurfiol fel bo'n briodol i anghenion, oedran a rhaglen ddysgu'r unigolyn ifanc.
- Dylid rhoi'r cyfle i bobl ifanc wella lefelau eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau sy'n ystyrlon i'w bywydau, i'w dysgu ehangach ac i'w datblygiad personol a chymdeithasol.
- Rhaid ailgyflwyno pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant amser llawn tra'u bod yn y ddalfa, fel eu bod yn fwy tebygol o barhau â'u llwybr dewisedig pan fyddant yn cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

#### Gofynion

0401	<p>Rhaid i'r cwricwlwm ganolbwyntio ar y meysydd addysgol allweddol sy'n debygol o hybu datblygiad a dilyniant personol yr unigolyn ifanc, ac o atal aildroseddu:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• gwella llythrennedd a rhifedd;</li><li>• datblygu sgiliau personol allweddol;</li><li>• sicrhau parhad rhaglenni a lleoliadau addysgol y brif ffrwd;</li><li>• dod yn rhan o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn eto;</li><li>• cynyddu sgiliau cyflogadwyedd trwy weithgareddau ymarferol a galwedigaethol;</li><li>• mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol;</li><li>• dysgu sut i ddysgu.</li></ul>
------	---

0402	<p>Dylai cymwysterau o fewn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCCChC) fod ar gael i'r holl bobl ifanc, er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• galluogi pawb i ddatblygu a chynnal sgiliau hanfodol;</li> <li>• annog pobl i ddod yn ddysgwyr gydol oes;</li> <li>• manteisio ar yr wybodaeth mewn busnesau a sefydliadau addysg;</li> <li>• annog busnesau a gweithwyr i ennill sgiliau newydd;</li> <li>• a helpu pobl yn eu cymunedau i ddatblygu sgiliau newydd.</li> </ul> <p>Cyflawnir hyn trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gefnogi datblygu cymdeithas gynhwysol lle caiff pawb y cyfle i wireddu eu potensial;</li> <li>• cynorthwyo â chwalu rhwystrau rhag symud ymlaen;</li> <li>• hybu cydnabod y sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi twf economaidd yng Nghymru;</li> <li>• cynnig cydraddoldeb wrth gydnabod cyflawniadau dysgwyr o bob oedran, p'un a ydynt yn dysgu yn y gweithle, y gymuned, yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol;</li> <li>• a chynnig cydraddoldeb.</li> </ul>
0403	<p>Dylai'r cwricwlwm ddarparu'r addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar yr holl bobl ifanc, er gwaethaf eu gwahanol ddiwylliannau, crefyddau, ethnigrwydd neu lefelau cyrhaeddiad pan fyddant yn cychwyn. Dylid cael tystiolaeth bod gwaith personol ac annibynnol, a gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys Gweithgareddau Cyfoethogi strwythuredig ar y penwythnos, yn cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol.</p>
0404	<p>Dylai'r bobl ifanc hynny yr asesir eu bod ar Lefel Mynediad 1, 2, 3 ac yn is na'r Lefel Mynediad gael cwricwlwm sy'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf i wella'r sgiliau hanfodol, sef llythrennedd (gan gynnwys llafar), rhifedd a sgiliau bywyd. Dylid nodi cyfnodau rheolaidd ac arwahanol ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar yr amserlen. Dylid rhoi cymorth ychwanegol â rhifedd a llythrennedd trwy diwtora unigol a thrwy gymorth dan gyfarwyddyd mewn pynciau eraill ar y cwricwlwm a gwneud dysgu llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o'r rhain. Ar ben hyn, dylai Rhaglenni Ymddygiad Troseddol, TGCh, ABCh, Addysg Gyrfaedd a Dinasyddiaeth, Addysg Gorfforol, cyrsiau blasu, cynalwedigaethol neu ymarferol fod ar gael i bobl ifanc, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn gwyddoniaeth ac mewn gemau.</p>

0405	Dylai'r bobl ifanc hynny sydd ar lefel cyrhaeddiad 1 ac yn gweithio tuag at lefel 2 gael cwricwlwm tebyg ond gyda mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, ar ddysgu cysylltiedig â gwaith ac ar ddatblygu sgiliau dysgu ac astudio annibynnol. Gan ddibynnu ar anghenion personol a nodau dysgu a chyflogaeth tymor hir, gall hyn gynnwys un neu fwy o raglenni galwedigaethol ynghyd â Rhaglenni Ymddygiad Troseddol, Llythrennedd, Rhifedd, TGCh, ABCh, Addysg Gyrfaoedd, Dinasyddiaeth, Addysg Gorfforol a chyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn gwyddoniaeth ac mewn gemau. Lle bo angen, bydd gan y bobl ifanc hyn hawl i gymorth ychwanegol wrth fynd i'r afael ag anghenion dysgu penodol, yn enwedig o ran llythrennedd a rhifedd.
0406	Yn achos y bobl ifanc hynny sydd ar lefel 2 neu sydd eisoes wedi'u cofrestru ar gyfer cyrsiau arholi fel TGAU, Safon Uwch a GNVQ Uwch, ac ati, neu sydd eisoes yn eu hastudio, dylai ystod lawn y cyrsiau hynny fod ar gael iddynt, yn ogystal â dilyniant meysydd llafur, mynediad i arholiadau, deunyddiau a gwaith cwrs. Ar ben hyn, bydd ganddynt hawl i ddilyn Rhaglenni Ymddygiad Troseddol, ABCh, Dinasyddiaeth, Addysg Gyrfaoedd, y Celfyddydau, Addysg Gorfforol a gemau.
0407	Mae'n rhaid i'r holl gyrsiau a rhaglenni, gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol, Gweithgareddau Cyfoethogi, Rhaglenni Ymddygiad Troseddol ac Addysg Gorfforol fod â pholisïau, meysydd llafur a chynlluniau gwaith ysgrifenedig ag amcanion dysgu eglur. Dylai'r holl ddogfennaeth fod ar gael i gyfeirio ati, ei monitro a'i harchwilio, a'i diwygio'n rheolaidd.
0408	<p>Rhaid i raglenni addysg a hyfforddiant hybu'r canlynol lle bo'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sgiliau datrys problemau;</li> <li>• sgiliau meddwl yn greadigol;</li> <li>• gallu i weithio mewn tîm;</li> <li>• sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad;</li> <li>• cymryd cyfrifoldeb;</li> <li>• dinasyddiaeth;</li> <li>• gwneud penderfyniadau;</li> <li>• cynllunio;</li> <li>• sgiliau dysgu personol.</li> </ul>
0409	Dylai amcanion arwain y sesiynau a dylid cael targedau eglur ar gyfer dilyniant sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses ddysgu. Bydd pob rhaglen ar gael ac yn cael ei staffio am 50 wythnos y flwyddyn, gan gynnwys addysg, hyfforddiant galwedigaethol, addysg gorfforol, gemau, Rhaglenni Ymddygiad Troseddol, a gweithgareddau'r celfyddydau a diwylliant.

0410	<p>Defnyddir TGCh i'r eithaf i:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• gefnogi a gwella'r profiad dysgu yn holl feysydd y cwricwlwm;</li><li>• galluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau defnyddio TGCh, fel offeryn ac fel cyfrwng yn ei rinwedd ei hun;</li><li>• datblygu gwybodaeth a sgiliau hanfodol sy'n ymwneud â defnyddio TGCh yn y meysydd cwricwlwm hynny;</li><li>• darparu ystod o adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi'r broses ddysgu;</li><li>• cynllunio a rheoli'r cwricwlwm.</li></ul>
------	---

## 4.2 Trefniadaeth y Diwrnod Dysgu

### Egwyddorion

Dysgu yw rhan bwysicaf y broses adsefydlu, a rhaid iddo fod wrth wraidd profiad gwarcheidiol a chymunedol bob unigolyn ifanc. Mae'n rhaid i addysg a hyfforddiant addas o ansawdd uchel fod ar gael i bob plentyn ac unigolyn ifanc.

- Rhaid i faint a dwyster y dysgu ystyried y ffaith bod llawer o bobl ifanc yn y ddalfa wedi ymddieithrio o ddarpariaeth addysgol cyn mynd i'r ddalfa.
- Ni fydd unrhyw un ifanc yn cael ei allgáu o gyfle dysgu fel cosb neu am unrhyw reswm arall heb awdurdod uwch reolwr.
- Mae'n hanfodol bod holl staff y sefydliad:
  - ◆ yn ymwybodol o arwyddocâd addysg a hyfforddiant fel ffactor amddiffynnol o ran atal aildroseddu;
  - ◆ yn deall sut mae sgiliau allweddol sydd wedi'u datblygu'n wael yn effeithio ar allu unigolyn ifanc i ddysgu;
  - ◆ yn deall yn eglur y cyfraniad maent yn gallu'i wneud at ddysgu unigolyn ifanc;
  - ◆ yn gallu cynllunio, cyflenwi a chyfiawnhau'r cyfraniad hwnnw.
- Rhaid i addysg a hyfforddiant fod yn flaenoriaeth, a rhaid iddynt beidio â chystadlu â rhaglenni neu weithgareddau eraill yn y sefydliad diogel ac mewn cynlluniau ailsefydlu ar gyfer y gymuned.
- Dylai pob profiad a gweithgaredd ddarparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hanfodol sy'n hybu cyfranogi'n weithgar yn y gymuned.
- Dylai dysgu barhau y tu hwnt i amserlen y diwrnod ffurfiol a rhaid i'r holl bobl ifanc gael cyfle i benderfynu drostynt eu hunain pa dasgau a pha weithgareddau dysgu a datblygu personol y byddant yn ymgymryd â nhw gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Dylid dathlu cynnydd a chyflawniad.
- Rhaid osgoi amharu ar barhad dysgu oni bai bod amodau argyfwng gweithredol yn codi.
- Rhaid i'r pennaeth addysg lunio'r wythnos ddysgu â mewnbwn a chyngor pobl eraill yn y sefydliad, a dylai fod wedi'i hintegreiddio'n llawn â gweithgareddau ehangach y drefn feunyddiol.



## Gofynion

0411	Bydd pobl ifanc yn cael o leiaf 30 awr o weithgareddau yr wythnos, a bydd hyn yn unol â'r amcanion yn eu cynllun dedfryd a'u CDU. Rhaid i anghenion asesedig unigolyn ifanc bennu pa gyfran o'r cynllun dedfryd cyfan y mae'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau'n ei llunio.
0412	Mae'n rhaid cynnal hunanasesiad ac adolygiad dysgu bob wythnos, yn ogystal â gosod targedau, cofnodi cynnydd a chyflawniad a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â rheoli cwblhau'r ddedfryd a pharatoi ar gyfer rhyddhau. Bydd hyn yn cael ei wneud gyda Thiwtor Personol yr unigolyn ifanc, naill ai mewn grŵp neu'n unigol.
0413	Rhaid i'r amserlen addysg a hyfforddiant fod yn strwythuredig, cael ei chyflenwi'n ddibynadwy ac adlewyrchu nodweddion nifer o'r bobl ifanc hyn, fel y gallu i ganolbwyntio am gyfnod byr yn unig a byrbwylltra uchel. Yn gyffredinol, dylid strwythuro sesiynau sy'n para 45 munud ar y mwyaf, gyda hyd pob sesiwn yn gweddu i natur y pwnc a gallu'r grŵp i gael budd ohono. Mae'n bosibl bydd hyd sesiynau'n cael ei ymestyn yn achos pynciau ymarferol (celf, dylunio a thechnoleg, arlwyo, cyrsiau galwedigaethol, addysg gorfforol).
0414	Dylai hyd pob egwyl fod yn briodol a dylid ei defnyddio'n gadarnhaol, gan sicrhau, er enghraifft, bod pobl ifanc yn cael diod ac yn paratoi ar gyfer symud i ddysgu newydd. Disgwylir i'r symud rhwng sesiynau gael ei reoli mewn modd digyffro, trefnus ac effeithiol. Yn gyffredinol, ni ddylai'r egwyl amser cinio fod yn hwy nag awr er y cydnabyddir mewn rhai amgylchiadau bod angen egwyl rywfaint yn hirach er mwyn symud pobl ifanc i'r ganolfan ddysgu ac yn ôl. Cyrraedd sesiwn mwy na 15 munud ar ôl ei amser cychwyn ar yr amserlen yw'r diffiniad o fod yn hwyr. Y safon ofynnol ar gyfer prydlondeb yw 95 y cant. Dylid defnyddio'r amser egwyl amser cinio yn adeiladol i annog pobl ifanc i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a phersonol.
0415	Bydd ymweliadau cartref a chyfarfodydd adolygu'n cael eu trefnu ar yr amseroedd a fydd yn tarfu lleiaf ar brofiad dysgu'r unigolyn ifanc.
0416	Bydd gan bob cwrs amcanion ysgrifenedig eglur ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh a fydd yn cael eu cymhwyso yng nghyd-destun y sesiwn.
0417	Dylai trefniadau digonol fod ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch dysgwyr yn y sefydliad trwyddo draw.

## 5. Sgiliau Llythrennedd, Iaith a Rhifedd

### Cefndir

Nododd Archwiliad y BCI o Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (2001):

- fod lefelau llythrennedd a rhifedd mwy na 50% o bobl ifanc ar Orchmynion Cadw a Hyfforddi yn is na'r rheini y disgwylir i blentyn 11 oed feddu arnynt;
- bod tua un rhan o bump yn debygol o fod yn gweithio ar y lefel y disgwylir i blentyn saith oed fod arni, neu'n is na hynny, yn achos llythrennedd, a bron traean yn achos rhifedd.

Mae'r cysyniadau 'llythrennedd' a 'rhifedd' sy'n rhan annatod o'r ddogfen hon yn llawer mwy nag ennill sgiliau sylfaenol yn unig. Mae sgiliau cyfathrebu a chymhwyso rhif yn ganolog i bob maes dysgu ac yn hanfodol i alluogi manteisio ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, cyfranogi ohonynt a symud ymlaen ynddynt, yn ogystal ag i hybu datblygiad personol. Mae'r dull o drin llythrennedd a rhifedd sy'n cael ei hybu yn y ddogfen hon yn gyson â mentrau'r brif ffrwd, ac yn tynnu ar egwyddorion addysgu a dysgu sydd wedi'u hen sefydlu mewn ymchwil ac arfer ysgolion a cholegau. Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn ganolog i holl ddysgu unigolyn ifanc. Heb y sgiliau hyn, mae unigolyn ifanc yn cael ei allgáu o gyfleoedd dysgu hanfodol ac, yn arwyddocaol, y cyfle i fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol.

Dylai darpariaeth llythrennedd a rhifedd fod ar wahân i weithgareddau dysgu a sgiliau eraill, a hefyd fod yn rhan annatod o'r gweithgareddau hynny, gan gynnwys gweithgareddau cyfoethogi. Dylai'r ansawdd, y safonau ac ystod y ddarpariaeth ddysgu adlewyrchu darpariaeth ddysgu debyg gan ddarparwyr dysgu yn y gymuned. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i gwblhau'r ddarpariaeth maent yn cychwyn arni yn y ddalfa pan fyddant yn cael eu trosglwyddo i'r rhan o'u dedfryd sydd yn y gymuned, lle bo'n briodol.

Dylid darparu sesiwn llythrennedd a rhifedd bob dydd. Er mwyn sicrhau bod y sesiynau hyn yn hollol effeithiol, mae'n rhaid cael addysgu o ansawdd uchel sy'n cael ei gefnogi gan ddeunyddiau dysgu ac addysgu da, gan ddefnyddio'r Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ddiweddaraf lle bo'n briodol. Bydd angen i'r dull addysgu ystyried yn llawn y gwersi pwysig a ddysgwyd wrth gyflwyno'r Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2, y Fframweithiau ar gyfer dysgu Saesneg a Mathemateg ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9, a'r strategaeth Sgiliau Bywyd ar gyfer llythrennedd, iaith a rhifedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sy'n 16 oed neu'n hŷn. Rhaid i'r dull a fabwysiadir fod yn ddwys ac yn gynhwysfawr, gan ganiatáu:

- addysgu llythrennedd a rhifedd yn uniongyrchol trwy sesiynau dyddiol;
- cymorth unigol i'r rheini sydd o dan Lefel 1;
- dulliau addysgu sydd wedi'u gwneud yn rhan annatod o feysydd addysg a hyfforddiant eraill, fel hyfforddiant galwedigaethol;
- cymorth pellach trwy Weithgareddau Cyfoethogi.

Dylai addysgu llythrennedd a rhifedd uniongyrchol fod yn dra strwythuredig. Dylai gwersi gael eu nodweddu gan:

- gynllunio gofalus sydd â chysylltiadau ag amcanion eglur, heriol a blaengar o gwricwla'r cyfnodau allweddol;
- addysgu yn ôl amcanion sy'n cael eu rhannu â'r bobl ifanc;
- cyfres o weithgareddau cysylltiedig ond gwahanol, sy'n cael eu gwahaniaethu lle bo angen, a'u cyflenwi ar gyflymder priodol i fachu sylw ac ysgogi pob dysgwr;
- lefel uchel o ryngweithio rhwng athrawon a phobl ifanc;
- synnwyr o ddysgu cynnar, cynnydd mesuradwy a chyflawniad dynodedig;
- cyflwyniad eglur a bwriadol i'r sesiwn lle bo'n briodol;
- cyfleoedd ar gyfer tasgau i'r dosbarth cyfan, grwpiau bach, parau ac unigolion, gan gynnwys cyflwyno a pherfformio;
- defnyddio adnoddau ysgogol sy'n gwbl briodol i oedran a chyrhaeddiad y bobl ifanc;
- cau'r sesiwn trwy ddod â phawb at ei gilydd i grynhoi cynnwys y sesiwn a galluogi pobl ifanc i ystyried/cydnabod eu cynnydd dysgu personol;
- cynhwysedd ac uchelgais.

Er bod dull addysgu llythrennedd a rhifedd yn cael ei arwain gan amcanion diffiniedig eglur, mae'n pwysleisio pwysigrwydd datblygu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n ystyrlon i'r dysgwyr ac sy'n ysgogol ac yn bachu eu sylw ar unwaith. Mae pobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn dod â gwybodaeth a phrofiad blaenorol y dylid tynnu arnynt i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth newydd. Dylai ymarferwyr ddarparu cyfleoedd ar gyfer cysylltu gwahanol feysydd dysgu trwy nodi sgiliau cysylltiedig a chysyniadau damcaniaethol, a gosod y rhain yng nghyd-destun tasgau swyddogaethol.

Dylid darparu cyfleoedd pellach yn y lle cyntaf i'r bobl ifanc hynny sydd o dan Lefel 1 i atgyfnerthu'r sgiliau a ddysgwyd yn yr ystafell ddosbarth trwy gymorth un-i-un, â ffocws. Dylid cysylltu'r dysgu yn y sesiynau hyn yn uniongyrchol ag amcanion, dylent adeiladu ar gryfderau a chanolbwyntio ar feysydd anhawster penodol fel y'u nodwyd trwy'r broses asesu. Bydd rôl y Cynorthwydd Cymorth Dysgu'n hanfodol o ran cefnogi dysgwyr mewn ystod eang o gyd-destunau, a bydd Tystysgrif Broffesiynol y BCI mewn Ymarfer Effeithiol (Cymorth i Ddysgwyr) yn canolbwyntio ar y cymwyseddau preswyl sydd eu hangen arnynt i gyflawni hyn.

Y prawf allweddol o'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn y sesiynau llythrennedd a rhifedd yw i ba raddau mae gwybodaeth a sgiliau newydd yn cael eu trosglwyddo i feysydd dysgu eraill ac yn cael eu defnyddio ynddynt.

Dylai sgiliau llythrennedd a rhifedd fod yn rhan o'r agenda addysgu benodol ym mhob cyd-destun dysgu. Dylai pobl ifanc gael cyfleoedd i:

- roi sgiliau a ddysgwyd ar waith mewn ystod eang o amgylchiadau;

- ailadrodd ac atgyfnerthu dysgu a sgiliau hanfodol;
- dangos eu llwyddiant i'w hunain ac i eraill.

Mae gan y BCI gynllun Mentora Llythrennedd a Rhifedd sy'n gysylltiedig â Thimau Troseddu Ieuenctid a darparwyr y Sector Gwirfoddol. Efallai yr hoffai darparwyr dysgu ystyried defnyddio mentoriaid llythrennedd a rhifedd gwirfoddol wrth weithio gyda phobl ifanc yn yr ystâd ddiogel i ieuenctid. Mae'r *Rhaglen Cymorth Cyfoedion* yn cynnig y cyfle i bobl ifanc a gwirfoddolwyr eraill hyfforddi fel mentoriaid dysgu. Mae'r rhaglenni hyn yn cynyddu ystod yr achrediadau sydd ar gael i ddysgwyr mwy galluog ac yn ehangu cyfranogiad trwy gyrraedd dysgwyr mewn gweithdai, ar esgyll ac mewn rhannau eraill o'r sefydliad. Mae gwasanaeth y llyfrgell yn chwarae rhan hollbwysig o ran ysgogi dysgwyr a chefnogi datblygu sgiliau darllen a sgiliau eraill. Mae *Dysgu fel Teulu* wedi darparu ysgogiad defnyddiol i annog rhieni ifanc i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i gyfathrebu â'u plant.

## Gofynion

0501	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn asesu anghenion y dysgwyr ar gyfer cymorth ychwanegol.
0502	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn rhoi dulliau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael mewnbyn llythrennedd a rhifedd dwys, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i ddatblygu sgiliau llafaredd.
0503	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod y seilwaith dysgu llythrennedd a rhifedd a ddefnyddir mewn addysg a hyfforddiant y brif ffrwd yn cael ei ddefnyddio i ategu dysgu llythrennedd, iaith a rhifedd. Dylai pob rhaglen llythrennedd, rhifedd ac ESOL arwahanol ddefnyddio'r safonau cenedlaethol a'r dogfennau cwricwlwm cenedlaethol perthnasol. Dylai 85% o gynllun pob rhaglen a sesiwn ar draws y cwricwlwm llawn gynnwys amcanion cwricwlwm craidd (neu llythrennedd a rhifedd) perthnasol, gan gynnwys Hyfforddiant Galwedigaethol a gweithgareddau cyfoethogi.
0504	Dylid cyflenwi gweithgareddau addysgu a dysgu llythrennedd, iaith a rhifedd o safon uchel.
0505	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau llythrennedd, iaith a rhifedd heriol yn cael eu gosod a'u cyflawni. Dylid cyflawni dangosyddion perfformiad y BCI ar gyfer yr holl bobl ifanc sydd i'w profi ar gyfer llythrennedd a rhifedd, gydag 80% o'r bobl ifanc ar Orchymynion Cadw a Hyfforddi am chwe mis neu fwy yn gwella o un lefel sgiliau neu fwy mewn llythrennedd a/rhifedd i'r lefel sydd ei hangen fel y nodir yn eu Cynllun dysgu unigol.
0506	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cyflogi staff addysgu a chymorth priodol. Bydd gan staff gymwysterau sy'n briodol i'w rôl, neu byddant wedi'u cofrestru ar gwrs cydnabyddedig sy'n arwain at y cymhwyster angenrheidiol yn unol â Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol y BCI. Mae defnyddio Cydlynwyr AAA, cydlynwyr llythrennedd a rhifedd, a chynorthwyr cymorth dysgu (ar gymhareb nad yw'n fwy nag 1:10) i gefnogi staff addysgu wedi bod yn effeithiol wrth godi safonau a chyflenwi rhaglenni dysgu o ansawdd i'r unigolyn.

0507	Rhaid i raglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n diwallu anghenion y staff a'r sefydliad fod ar waith.
------	---

## 6. Sgiliau TGCh

### Cefndir

Mae sgiliau TGCh yn hanfodol i blant a phobl ifanc o bob oed. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn amlinellu pwysigrwydd datblygu sgiliau TGCh. Hefyd, cyhoeddodd Papur Gwyn 2003 *21<sup>st</sup> Century Skills: Realising Our Potential* y byddai sgiliau TGCh sylfaenol yn cael eu cydnabod o fewn y strategaeth Sgiliau Bywyd, ochr yn ochr â llythrennedd, iaith a rhifedd. Dros amser, bwriedir rhoi'r sgiliau sydd eu hangen i'r boblogaeth i weithredu'n effeithiol mewn cymdeithas sy'n defnyddio fwyfwy ar TGCh, mewn gorchwylion gwaith a hamdden, a thrwy hynny gyfrannu at gynhyrchiant economaidd trwy allu perfformio mewn swyddi gwerth ychwanegol uchel sy'n ddibynnol ar TGCh, a hefyd lleihau allgáu cymdeithasol y mae'r bwlch rhwng cyfoethogion TGCh a thlodion TGCh yn ei achosi. Mae strategaeth sgiliau defnyddwyr TGCh wedi'i datblygu a'i chyflwyno fesul cam, ac mae cymuned ar-lein wedi'i chreu yn [www.ictsfl.org.uk](http://www.ictsfl.org.uk), lle rhennir adnoddau a gellir trafod materion addysgol.

Mae Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA) yn adeiladu ar lwyddiant y prosiect Sgiliau Defnyddwyr cychwynnol, a byddant yn datblygu gweledigaeth Sgiliau Bywyd TGCh i gefnogi'r uchelgais fel y manylir arno yn *World Class Skills: Implementing the Leitch Review of Skills in England*. Mae rôl BECTA wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid, darparwyr hyfforddiant ac ymarferwyr i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer Sgiliau Bywyd TGCh, gan sicrhau ei bod yn unol â'r e-strategaeth ar gyfer AB sydd wedi'i diweddarau. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ddatblygu cynllun cyflawni, a bydd darganfyddiadau hyn yn sail i'n hymrwymadau yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod. Mae llinyn o'r gwaith hwn wedi gweld e-Sgiliau'n gwneud gwaith i fapio a diwygio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Defnyddwyr TG, gan nodi'r cyfleoedd ar gyfer cyflenwi sgiliau llythrennedd a rhifedd swyddogaethol yng nghyd-destun y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol mewn TG (ITQ). Mae hyn wedi arwain at gynllunio cymhwyster defnyddwyr TG (o'r enw *ITQ for Life*) ar Lefelau 1 a 2, yn ymgorffori sgiliau llythrennedd Lefel 1 a sgiliau rhifedd Lefel Mynediad 3 o fewn gofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredyd, ac wedi rhoi cynllun peilot ar waith (o fis Medi 08).

Rhaid i'r holl bobl ifanc gael y cyfle i ennill sgiliau defnyddwyr TGCh, a chael eu hannog i'w defnyddio i gefnogi eu dysgu yn y cwricwlwm trwyddo draw. Rydym yn disgwyl i TGCh fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm drwyddo draw. Dylai Cartrefi Diogel i Blant sicrhau eu bod yn darparu darpariaeth briodol o sgiliau TGCh ar bob lefel sy'n briodol i anghenion y bobl ifanc sydd dan eu gofal.

Mae TGCh yn rhan annatod o gyflenwi gweithgareddau llythrennedd a rhifedd, a dylai Cartrefi Diogel i Blant ddefnyddio'r datblygiadau arloesol a'r arfer gorau wrth ddefnyddio TGCh mewn ysgolion, colegau a lleoliadau eraill i ddarparu sail ar gyfer eu dulliau addysgu a defnyddio TGCh, gan gynnwys defnyddio byrddau gwyn electronig a Thabledi PC ac ati, i ysgogi dysgwyr a gwella'u sgiliau, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer gwella'r cyflenwi yn yr ystafell ddosbarth a hyblygrwydd.

Rydym yn disgwyl i Gartrefi Diogel i Blant/darparwyr dysgu gyflenwi a chefnogi cyfarpar TGCh (caledwedd a meddalwedd) yn yr un modd ag adnoddau dysgu eraill.

## Gofynion

0601	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad TGCh yn y cwricwlwm, ac yn cyflwyno safonau a chymwysterau newydd wrth iddynt ddod ar gael. Gellir gweld y safonau ar wefan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA). Dylid defnyddio'r safonau i ddarparu sail ar gyfer datblygu darpariaeth dysgu.
0602	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu sgiliau defnyddwyr TGCh ar amrediad o lefelau, yn unol ag anghenion asesedig y dysgwyr.
0603	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn datblygu'r cwricwlwm TGCh yn unol â'r polisïau a'r mentrau sy'n dod i'r amlwg.
0604	Dylai'r Cartref Diogel i Blant ddangos sut bydd TGCh yn cael ei defnyddio i wella addysgu a dysgu ym mhob maes cwricwlwm, yn enwedig o ran gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd ac iaith, cynyddu cymhelliant a darparu cyfleoedd dysgu hyblyg.
0605	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod rhaglenni'n diwallu anghenion unigolion, a'u bod yn berthnasol i'r anghenion TGCh ar gyfer cyfleoedd dysgu pellach a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Dylai'r holl raglenni ddarparu llwybrau dilyniant i ddysgu a hyfforddi pellach lle bo'n briodol.
0606	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau heriol yn cael eu gosod a'u cyflawni. Dylid cyflawni targedau perfformiad penodedig.
0607	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod trefniadau asesu a dilysu'n bodloni gofynion y cyrff dyfarnu. Dylid cynhyrchu o leiaf un adroddiad dilysydd allanol ar gyfer pob cwrs bob blwyddyn. Dylai adroddiadau Estyn ac adroddiadau arolygu ehangach nodi asesu a dilysu da neu foddhaol.
0608	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod staff dysgu profiadol sydd â chymwysterau priodol yn cael eu cyflogi. Dylai staff feddu ar gymwysterau addysgu priodol neu fod yn gweithio tuag atynt.
0609	Rhaid i raglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n diwallu anghenion y staff a'r sefydliad fod ar waith.
0610	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod o leiaf un PC ar gael fesul deg unigolyn ifanc sydd wedi cofrestru ar raglenni dysgu. Dylid uwchraddio unrhyw gyfarpar nad yw'n bodloni'r fanyleb ofynnol a nodir isod. Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod y perifferolion angenrheidiol yn cael eu darparu.

0611	<p>Mae'r fanyleb ofynnol gyfredol ar gyfer caledwedd i gyrchu'r mwyafrif o adnoddau e-ddysgu fel a ganlyn (lle mae 'dylai' neu 'dylid' yn golygu dymunadwy iawn, a 'rhaid' yn golygu hanfodol):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• caledwedd: rhaid iddo ragori ar fanylebau a argymhellwyd ar gyfer y system weithredu a'r cymwysiadau y mae disgwyl iddo'u defnyddio;</li> <li>• system weithredu: dylid defnyddio system weithredu y mae'r datblygwr/gwneuthurwr yn ei chefnogi ar y pryd, ac a fydd yn parhau i gael ei chefnogi am o leiaf 3 blynedd;</li> <li>• cysylltedd rhwydwaith: rhaid cael rhyngwyneb rhwydwaith sy'n gallu cefnogi cyfraddau data rhwydwaith o 100Mbps o leiaf wrth ei gysylltu â thechnolegau gwifr. (Rhaid cael rhyngwyneb rhwydwaith diwifr sy'n cydymffurfio â safonau IEEE 802.11g a/neu 802.11a ac sy'n cefnogi cydymffurfio â WPA/WPA2/802.11i);</li> <li>• cysylltedd perifferolion: rhaid i hyn gefnogi dyfeisiau perifferol trwy USB a/neu IEEE1394;</li> <li>• manyleb graffeg: rhaid gallu arddangos cynnwys fideo lliw llawn ar eglurder llawn y dangosydd;</li> <li>• manyleb sain: rhaid gallu cefnogi sain ar fanyleb ofynnol samplu a chwarae-yn-ôl stereo 16-did;</li> <li>• manyleb y porwr gwe: rhaid i'r cymhwysiad pori allu arddangos gwefannau gan ddefnyddio safonau W3C. Rhaid i'r cymhwysiad pori gefnogi mewnosod a defnyddio ategiadau trydydd parti, fel Adobe Flash;</li> <li>• diogelwch: rhaid darparu meddalwedd gwrth-feirws addas yn ogystal â ffitro cynnwys priodol.</li> </ul>
0612	<p>Dylai trefniadau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch fod ar waith yn y sefydliad trwyddo draw.</p>





## 7. Dysgu Cysylltiedig â Gwaith

### Cefndir

Prif ddiben rhaglenni dysgu cysylltiedig â gwaith yw darparu'r sgiliau, y profiad a'r cymwysterau i ddysgwyr a fydd yn gwella'u dyheadau a'u gobeithion o gael hyfforddiant a chyflogaeth ystyrlon yn y dyfodol.

Dylai Cartrefi Diogel i Blant sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn dysgu cysylltiedig â gwaith lle bo'n briodol i'w hanghenion a'u llwybrau dysgu. Dylai Cartrefi Diogel i Blant hefyd fod yn ymwybodol o'r cwricwlwm 14-19 newydd arfaethedig, a'r ystod o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd seiliedig ar waith a fydd ar gael iddynt pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau.

Rhaid i'r Cartref Diogel i Blant ddatblygu dysgu cysylltiedig â gwaith i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn y sefydliad. Bydd y Cartref Diogel i Blant hefyd yn codi safonau trwy sicrhau datblygiad proffesiynol ei staff.

Dylai faint o ddysgu cysylltiedig â gwaith y mae unigolyn ifanc yn ei dderbyn adlewyrchu'n fras y cyfrannau a amlinellwyd ym Mhennod 4 y ddogfen hon, a chydabod anghenion yr unigolyn a ffactorau ysgogol y maes cwricwlwm hwn.

Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio i sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn parhau â'u dysgu pan fyddant yn cael eu rhyddhau i'r gymuned neu eu trosglwyddo rhwng sefydliadau. Yn aml, mae pobl ifanc yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau cyn iddynt gwblhau'r rhaglenni dysgu.

### Gofynion

0701	Dylai'r Cartref Diogel i Blant ddatblygu cynlluniau ar gyfer sgiliau dysgu cysylltiedig â gwaith a chyflogadwyedd yn unol ag anghenion personol a nodau addysg/cyflogaeth pellach y dysgwyr ac yn unol â'r cwricwlwm cenedlaethol a'r <i>Strategaeth Sgiliau Cenedlaethol</i> .
0702	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod rhaglen ddysgu sy'n unol â chyfleoedd addysg/hyfforddiant pellach a dysgu seiliedig ar waith yn debygol o fod ar gael i bobl ifanc pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa.
0703	Rhaid i'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddysgwyr gwblhau rhaglenni dysgu. Bydd yn darparu cyrsiau sy'n briodol i oedran a rhyw'r dysgwyr a hyd eu cyfnod yn y ddalfa.
0704	Rhaid i gynllunio rhaglen ddysgu gefnogi cyfleoedd cyfartal yn llawn i bob dysgwr gyfranogi mewn cyrsiau sy'n briodol i'w anghenion a'i nodau.
0705	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu hyfforddiant mewn sgiliau gwaith trosglwyddadwy, gan wneud sgiliau sylfaenol a Sgiliau Allweddol yn rhan annatod ohono.

0706	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau heriol yn cael eu gosod a'u cyflawni.
0707	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod athrawon a hyfforddwyr profiadol sydd â chymwysterau priodol yn cael eu cyflogi. Dylai hyfforddwyr feddu ar gymwysterau dysgu priodol neu fod yn gweithio tuag atynt.
0708	Dylai rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n diwallu anghenion y staff a'r sefydliad fod ar waith.
0709	Rhaid i'r Cartref Diogel i Blant reoli'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol ac yn ddarbodus i sicrhau darpariaeth gost-effeithiol sy'n bodloni'r safonau a ddiffinnir yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.
0710	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod trefniadau asesu a dilysu'n bodloni gofynion y cyrff dyfarnu. Dylai holl adroddiadau dilysydd allanol fod yn foddhaol neu'n well. Dylai adroddiadau Estyn neu gyfwerth nodi asesu a dilysu da neu foddhaol ym mhob maes dysgu.

## 8. Addysg Bellach ac Uwch

### Cefndir

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar rai pobl sy'n dod i'r ddalfa i symud ymlaen i addysg bellach ac uwch yn ystod eu dedfryd neu wedi hynny. Dylid rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd iddynt ar gyfleoedd addysg bellach ac uwch, gan gynnwys cyrsiau 'mynediad' a chymorth ariannol. Mae cyrsiau mynediad yn cynnwys *Openings* (Y Brifysgol Agored), cyrsiau mynediad RhCAC a'r cwrs Coleg Ruskin, *Preparation for Higher Education by Distance Learning*. Mae'n bosibl y bydd angen cyfleusterau dysgu o bell, gan gynnwys pecynnau dysgu agored unigol, yn ogystal â'r gallu i astudio TGCh. Dylai'r rhain fod ar gael yn y Cartref Diogel i Blant.

### Gofynion

0801	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar gael ac yn hygyrch i ddysgwyr sydd â diddordeb mewn rhaglenni AB ac AU.
0802	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd, gan gynnwys deunydd hyrwyddol i bobl ifanc ar natur addysg bellach ac astudiaeth lefel uwch a chyfleoedd addysg uwch, gan gynnwys mynediad at gyrsiau addysg uwch ac israddedig.
0803	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar gyllid ar gael i bob ddysgwr.
0804	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn defnyddio'r CDU i gynorthwyo'r unigolyn ifanc ac yn ei gynghori ar y cyrsiau mae'n eu dewis.
0805	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn hwyluso astudiaeth barhaus pan fydd troseddwr yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau, trwy gadw a throsglwyddo cofnodion o'r diwrnod rhyddhau.



## 9. Gweithgareddau Cyfoethogi a'r Celfyddydau

### Cefndir

Mae'n ofynnol gan y BCI bod sefydliadau'n darparu 12 awr o weithgareddau cyfoethogi ar benwythnosau a chyda'r nos yn ychwanegol at y 30 awr o amser cwricwlwm mwy ffurfiol bob wythnos. Mae rhaglenni cyfoethogi'n weithgareddau strwythuredig sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â chyd-destunau dysgu gweithgar y byddant yn eu cael yn gyffrous ac yn ysgogol. Dylai gweithgareddau cyfoethogi gynnwys amcanion dysgu eglur a fydd yn galluogi pobl ifanc i wella'u lefelau cyrhaeddiad (yn enwedig o ran llythrennedd a rhifedd), dysgu sgiliau newydd a chynyddu hunanhyder. Bydd i ba raddau y bydd darparwyr dysgu craidd yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn cyflenwi gweithgareddau cyfoethogi yn fater i'w ystyried yn lleol.

Bydd y rhaglenni hyn yn darparu cyfle i gynnwys staff y Cartref Diogel i Blant, ymarferwyr y celfyddydau ac ymarferwyr arbenigol eraill, gwirfoddolwyr a mentoriaid eraill yn ogystal â staff dysgu a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu.

Bydd angen bachu sylw'r rheini sydd â phrofiadau addysgol gwael mewn sawl ffordd; weithiau gall gweithgareddau creadigol fod yn gam cyntaf at ddiwallu anghenion mewn ystyr ehangach. Maent wedi bod yn 'fachau bachu sylw' effeithiol i annog cyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu a sgiliau eraill. Anogir darparwyr dysgu i ddefnyddio dull arloesol o fynd ati i gynnig y cwricwlwm hwn, a bydd angen iddynt ddangos eu bod yn gallu darparu ystod o ddulliau addysgu wedi'u cynllunio i gyrraedd yr holl ddysgwyr.

Mae'r celfyddydau'n faes sy'n arbennig o arwyddocaol mewn gweithgareddau cyfoethogi, ac mae'r BCI wedi sefydlu partneriaeth strategol â **Chyngor Celfyddydau Cymru a Lloegr**. Mae'r **Cyngor Celfyddydau**'n ariannu ac yn cefnogi datblygiad nifer o fodiwlau cyfoethogi'n uniongyrchol, ac yn mynd ati i gefnogi ymwneud ymarferwyr a sefydliadau'r celfyddydau â'u datblygu a'u cyflenwi. Bydd hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff sydd a wnelo â hyn trwy'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid yn elfen allweddol o weithredu llwyddiannus.

Mae cwricwlwm y celfyddydau'n ategu rhannau eraill o'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau, ac yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth fwy cyflawn o'r celfyddydau a'u cyfraniad at ddiwylliant a chymdeithas; cynyddu eu hunan-barch a'u hyder; datblygu cymwyseddau creadigol, personol a chysylltiedig â gwaith cynyddol, â'r posibilrwydd o fynd ar drywydd gyrfa yn y celfyddydau, ac ennill cymwysterau cenedlaethol.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cwricwlwm y celfyddydau wedi'i ddatblygu i alluogi pobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r celfyddydau gweledol a pherfformiadol a chelfyddydau'r cyfryngau, a'u sgiliau fel ymarferwyr y celfyddydau. Mae'r **Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol** wedi cynhyrchu rhaglen celfyddydau fodwlar, wedi'i hachredu ar Lefel Mynediad, Lefel Un, Dau a Thri sy'n cyfeirio at y safonau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a iaith.

Ceir unedau sy'n ategu ac yn cymhwyso'r cwricwlwm TGCh.

Mae strwythur modwlar yn galluogi pobl ifanc i greu portffolio a pharhau â'u hastudiaethau os ydynt yn cael eu trosglwyddo i sefydliad arall neu'n dychwelyd i'w cymuned rhan o'r ffordd trwy raglen, ac i symud ymlaen i GNVQ, TGAU, Safon Uwch neu raglenni celfyddydau eraill sydd wedi'u hachredu ar lefel addas. Ceir unedau yn yr holl raglenni uchod sy'n arbennig o berthnasol i'r rheini sydd am ddilyn gyrfa yn y celfyddydau a meysydd cyfoethogi eraill, a cheir unedau sy'n datblygu sgiliau gwaith trosglwyddadwy.

Fel yn achos mathau eraill o ddarpariaeth dysgu, fe fydd yn bwysig bod dysgwyr sy'n symud i'r gymuned yn gallu parhau â'r dysgu y cychwynnwyd arno yn y ddalfa.

Mae'r cwricwlwm cyfoethogi a'r celfyddydau'n cyfrannu at fywyd diwylliannol a chreadigol y sefydliad, gan roi cyfleoedd i staff a phobl ifanc ryngweithio'n anffurfiol. Maent yn darparu cyfle ar gyfer hunanfyngiant, a chan hynny'n cynorthwyo â chadw trefn dda. Mae ymrwymiad sefydliadau gwirfoddol a chymunedol y celfyddydau wedi'i hen sefydlu. Mae'r **Cyngor Celfyddydau** a'r **BCI** wedi cyhoeddi cyfeiriadur o sefydliadau/ymarferwyr y celfyddydau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu, ac o'u gweithgareddau mewn sefydliadau diogel, ac mae **Ymddiriedolaeth Koestler** yn trefnu arddangosfa flynyddol o gelf troseddwr.

Cyflawnir arfer da mewn gweithgareddau cyfoethogi pan:

- fydd gweithgareddau'n cael eu hystyried yn ganolog i ethos ac effeithiolrwydd y sefydliad ac yn sylfaenol i wireddu potensial pob unigolyn ifanc;
- bydd cymorth parhaus ar gyfer Gweithgareddau Cyfoethogi'n dod o du'r uwch reolwyr;
- bydd pobl ifanc o bob oed a lefel cyrhaeddiad yn gallu dod o hyd i rywbeth ychwanegol, y tu hwnt i addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth, i ddiwallu eu hanghenion a'u diddordebau personol;
- dewisir y rhaglen weithgareddau i ganiatáu cyfranogiad pobl ifanc ar bob lefel cyrhaeddiad;
- bydd natur y gweithgareddau'n wahanol i'r brif ddiwrnod dysgu, hyd yn oed pan fydd yr hynny a gynnigir yn rhyw fath ar estyniad o'r cwricwlwm;
- bydd pobl ifanc, yn ogystal â staff, yn ymwneud â phenderfynu beth sy'n cael ei gynnig a sut mae'n cael ei gynnig;
- bydd ymgynghori ag ymarferwyr a'u cynnwys mewn cynllunio a gweithredu'r gweithgareddau;
- bydd y gweithgaredd yn cael ei drefnu a'i reoli gan gydlynnydd dynodedig;
- bydd ymgynghori â rhieni/gofalwyr a byddant yn cael eu cynnwys cyn

belled â phosibl;

- bydd y sefydliad yn manteisio ar gyngor ac ymrwymiad proffesiynol gwasanaethau cymorth a gwybodaeth ehangach, gan gynnwys partneriaid anhraddodiadol fel sector y celfyddydau, y sector gwirfoddol a chymunedol o'r gymuned leol (gan gynnwys clybiau lleol, cymdeithasau ac unigolion) ac o'r cymunedau y bydd y bobl ifanc yn dychwelyd iddynt;
- bydd ymdrechion a chyflawniadau bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi, eu cofnodi a'u dathlu;
- bydd gweithgareddau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac yn canolbwyntio ar wella perfformiad, datblygu hyder a hunan-barch ym mhob maes dysgu;
- bydd gweithgareddau'n cael eu monitro a'u gwerthuso;
- bydd amrywiaeth yn cael ei chydabod yn llawn, yn enwedig amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig;
- defnyddir yr ystod lawn o dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan fod y rhain wrth wraidd cymaint o ddatblygiadau arloesol diweddar yn y celfyddydau ac yn debygol o fod yn ysgogwr allweddol ar gyfer y grŵp pobl ifanc penodol hwn, ac mae iddynt ystod o fuddion.

Mae rhaglenni amgylcheddol hefyd yn ffynhonnell werthfawr o ddysgu i bobl ifanc – yn enwedig pan gellir rhoi'r cyfle iddynt fynd ati i gymryd rhan mewn prosiectau sy'n meithrin agweddau cyfrifol tuag at yr amgylchedd a phobl eraill, ac sy'n rhoi cyfleoedd i ddatblygu ystod o sgiliau sy'n berthnasol i fywyd yn y gymuned.

## Gofynion

0901	Dylai'r Cartref Diogel i Blant ddarparu ystod o weithgareddau cyfoethogi.
0902	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn dangos ei fod yn ymatebol i amrywiaeth ddiwylliannol y boblogaeth, gan gadw mewn cof bod hyn yn gallu newid ar fyr rybudd.
0903	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn defnyddio'r CDU a chofnodion cyflawniad y bobl ifanc er mwyn galluogi dysgwyr i reoli eu dysgu a'u datblygiad.
0904	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn creu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol.
0905	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod staff profiadol sydd â chymwysterau priodol yn cael eu cyflogi. Dylai staff feddu ar gymwysterau dysgu priodol neu ddyfarniadau/cymwysterau eraill sy'n benodol i'r rôl, neu fod yn gweithio tuag atynt.
0906	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod rhaglenni'n diwallu anghenion yr unigolion a bod y sgiliau a ddatblygir yn berthnasol i'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc pan fyddant yn cael eu rhyddhau i'r gymuned.



0907	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod anghenion yn cael eu dadansoddi a bod polisïau i sicrhau cyfle cyfartal yn cael eu rhoi ar waith. Dylai rhaglenni fod yn gymdeithasol gynhwysol a bodloni anghenion a diwylliannau amrywiol.
0908	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod trefniadau asesu, cymedroli a dilysu'n bodloni gofynion cyrff dyfarnu, gydag o leiaf un adroddiad dilysydd allanol boddhaol y flwyddyn ar gyfer pob cwrs.
0909	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau heriol yn cael eu gosod a'u cyflawni. Dylid mesur cyflawniadau o'u cymharu â thargedau a osodwyd.
0910	Dylai trefniadau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch fod ar waith.
0911	Dylai rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n diwallu anghenion y staff a'r sefydliad fod ar waith.

## 10. Datblygiad Personol a Chymdeithasol

### Cefndir

Rhaid i ddatblygiad sgiliau personol a chymdeithasol fod wrth wraidd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa. Mae llawer o bobl ifanc sy'n cychwyn cyfnod yn y ddalfa'n byw bywydau cymhleth ac nid yw'r sgiliau personol angenrheidiol ganddynt i ddelio â bywyd a'r disgwyliadau arnynt. Disgwylir i'r cwricwlwm yn y ddalfa gynnig y cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau ymarferol, gwybyddol a chymdeithasol fel bo'n berthnasol i'w hanghenion. Dylid defnyddio'r gweithgareddau yma i gefnogi datblygu dysgu a sgiliau eraill, yn enwedig sgiliau sylfaenol. Mewn rhai sefydliadau, ceir gweithgareddau datblygu darllenwyr cysylltiedig â gwaith sy'n ddychmygol ac yn arloesol gyda chynlluniau cymorth cyfoedion, ac ati. Dylid integreiddio datblygu sgiliau personol a chymdeithasol â rhaglenni rheoli ymddygiad ac ymyriadau eraill sy'n rhan o'r drefn feunyddiol, a dylai gefnogi cyrhaeddiad sgiliau allweddol ehangach i wella gobeithion o gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn addas yn y dyfodol, a gwneud cynnydd ynddynt. Mae achrediad ar gael oddi wrth nifer o gyrff dyfarnu gan gynnwys y **Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol, ASET** ac **ASDAN**. Mae cyrsiau modwlar wedi'u datblygu y mae modd eu cyflawni ar amserlen fer ac y gellir eu trosglwyddo rhwng sefydliadau ac i leoliadau cymunedol. Gallant arwain at gymwysterau pellach ar lefel uwch.

Dylai'r cwricwlwm gynnwys: Dinasyddiaeth; Gwaith Cysylltiedig â Throsedd; Fframwaith Sgiliau Bywyd a Sgiliau Cymdeithasol; Sgiliau Cyflogaeth; Perthnasoedd Teuluol a Rhianta (Ile bo'n briodol); Sgiliau allweddol ehangach.

### Gofynion

1001	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn dangos ei fod yn ymatebol i amrywiaeth ddiwylliannol y boblogaeth, gan gadw mewn cof bod hyn yn gallu newid.
1003	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn meithrin sgiliau dysgu annibynnol i bobl ifanc fel bo'n briodol i'w hanghenion a'u nodau, e.e. trwy hunan astudiaeth â chymorth.
1004	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cyfeirio gwaith yn y maes hwn i'r safonau cenedlaethol mewn llythrennedd, iaith a rhifedd.
1005	Bydd y darparwr dysgu'n cysylltu'r gwaith hwn â chynllunio dedfryd a strategaeth ailsefydlu'r sefydliad.
1006	Dylai'r darparwr dysgu sicrhau bod staff profiadol sydd â chymwysterau priodol yn cael eu cyflogi. Dylai staff feddu ar gymwysterau dysgu priodol, neu fod yn gweithio tuag atynt.
1007	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod sgiliau sylfaenol planedig yn cael eu datblygu.
1008	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod trefniadau asesu, cymedroli a dilysu'n bodloni gofynion cyrff dyfarnu, gydag o leiaf un adroddiad dilysydd allanol boddhaol y flwyddyn ar gyfer pob cwrs.

1009	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod anghenion yn cael eu dadansoddi, bod polisiâu i sicrhau cyfle cyfartal yn cael eu rhoi ar waith a bod rhaglenni'n gymdeithasol gynhwysol. Rhaid i addysg fod ar gael i bob dysgwr a rhaid cydymffurfio â Pholisiâu Cyfle Cyfartal.
1011	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau heriol yn cael eu gosod a'u cyflawni. Dylid mesur cyflawniadau o'u cymharu â thargedau a osodwyd.
1012	Dylai trefniadau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch fod ar waith.
1013	Dylai rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n diwallu anghenion y staff a'r Cartref Diogel i Blant fod ar waith. Yn anad dim, dylai'r holl staff gael datblygiad proffesiynol parhaus ar reoli ymddygiad fel yr argymhellir yn yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP) diweddar.

## 11. Dysgu o Bell, Dysgu seiliedig ar Adnoddau ac e-Ddysgu

### Cefndir

Mae'n ofynnol gan y **BCI** bod Cartrefi Diogel i Blant yn annog pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau dysgu personol, e.e. trwy ymgymryd ag astudiaeth breifat ar gyfer pobl ifanc lle bo'n briodol a lle bo hyn yn llunio rhan o'u dysgu a'u datblygiad. Mae gan e-Ddysgu a defnyddio TGCh yn effeithiol botensial sylweddol i danategu'r math hwn o ddysgu, a dylai'r Cartref Diogel i Blant ddangos ymwybyddiaeth o unrhyw arfer addawol ar gyfer y grŵp oedran hwn mewn ysgolion a cholegau'r brif ffrwd. Ein nod yw mabwysiadu arferion sydd â'r gallu i rymuso pobl ifanc trwy'u helpu i chwarae rhan fwy gweithgar wrth fynd ar drywydd eu nodau dysgu, meithrin creadigedd ac arloesedd, cynnig dysgu hyblyg, cyflawni gwell gwerth am arian trwy sicrhau bod cymaint o adnoddau â phosibl ar gael, ac annog pobl ifanc i wella'u gwybodaeth a'u sgiliau'n barhaus.

Mae agweddau ysgogol ymgysylltu â deunydd trwy gyfrwng TGCh wedi'u hen sefydlu, er dylid nodi y bydd angen mwy o gymorth ychwanegol gan staff y sefydliad ar bob unigolyn ifanc na'r hyn a ddarperir fel rheol, ac y bydd angen monitro gofalus er mwyn sicrhau bod canlyniadau dysgu'n cael eu cyflawni. Mae'r potensial ar gyfer dysgu o bell ac e-ddysgu'n debygol o fod o'r budd mwyaf i'r lleiafrif bach o bobl ifanc yn y ddalfa sydd, er enghraifft, yn astudio ar gyfer cyrsiau TGAU a Safon Uwch penodol. Dylai'r Cartref Diogel i Blant hefyd ystyried potensial TGCh ar gyfer galluogi pobl ifanc i gynnal neu ddatblygu cysylltiadau ag ysgol neu goleg yn eu cymunedau.

Er bod ystyriaeth diogelwch yn cyfyngu ar ddatblygu e-ddysgu, rydym yn disgwyl y bydd yr agenda e-ddysgu yn y ddalfa yn newid ac yn ehangu yn y blynyddoedd sydd ar ddod i gefnogi'r amcanion dysgu a sgiliau ehangach hyn. Mae e-Ddysgu eisoes wedi bod yn llwyddiannus o ran bachu sylw troseddwr sydd wedi ymddieithrio o ddysgu traddodiadol. O'r herwydd, bydd y Cartref Diogel i Blant yn rhoi newidiadau ar waith wrth iddynt ddatblygu. Dylai'r Cartref Diogel i Blant hefyd sicrhau bod unrhyw gynigion a wneir yn berthnasol i'r bobl ifanc yn y ddalfa o ran y deunydd a gyflwynir a'r canlyniadau dysgu y bwriedir iddynt eu cyflawni.

Er bod gan y Cartrefi Diogel i Blant ystyriaethau diogelwch, rydym yn awyddus i ddarparu'r gael deialog ag ymarferwyr sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd, fel bod y cymorth angenrheidiol ar gael i bobl ifanc, boed hynny wyneb-yn-wyneb neu'n rhithwir, i ddatblygu dysgu annibynnol a chyrchu gwybodaeth berthnasol am gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael iddynt yn eu cymunedau. Dylai darparwyr dysgu hefyd ystyried potensial TGCh i gynnal a datblygu cysylltiadau â Thimau Troseddau leuenctid, ymarferwyr gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd, ac ysgolion a cholegau yn eu cymunedau cartref. Fel yn achos mathau eraill o ddarpariaeth dysgu, fe fydd yn bwysig bod dysgwyr sy'n symud i'r gymuned yn gallu parhau â'r dysgu y cychwynnwyd arno yn y ddalfa.

Mae'n bwysig bod adnoddau dysgu fel llyfrau a deunyddiau addysgu a dysgu ar gael yn y Cartref Diogel i Blant i'r bobl ifanc ategu a thanategu eu dysgu a'u datblygiad.

## Gofynion

1101	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cefnogi dysgu mewn ystafelloedd preifat a lleoliadau eraill. Bydd cymorth o'r fath yn gofyn am ddarpariaeth deunyddiau dysgu priodol, gan gynnwys gwerslyfrau, llawlyfrau cyrsiau, CD-ROMs a'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau TGCh priodol.
1102	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu cyngor, cyfarwyddyd, cymorth a deunyddiau dysgu ategol i'r rheini sy'n ymgymryd â dysgu o bell.
1103	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod adnoddau fel llyfrau, deunydd darllen ac adnoddau addysgu a dysgu priodol ar gael i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn y ddalfa.
1104	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu cyfarwyddyd ar sgiliau astudio a chymorth priodol i alluogi dysgwyr i reoli eu dysgu eu hunain.
1105	Bydd y darparwr dysgu'n ategu dysgu ffurfiol yn yr ystafell ddosbarth neu'r gweithdy â chyfleoedd ar gyfer astudio preifat a dysgu annibynnol.
1106	Bydd gan y Cartref Diogel i Blant systemau monitro cadarn i sicrhau bod yr holl amser astudio preifat ac unrhyw ddysgu o bell yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
1107	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod gofynion dysgwyr yn cael eu hasesu'n ddigonol.
1109	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau heriol i ddysgwyr ymgysylltu â dysgu annibynnol yn cael eu gosod a'u cyflawni. Dylid darparu gweithgareddau astudio preifat ystyrion i'r holl bobl ifanc. Dylid mesur cyflawniad o'i gymharu â thargedau a osodwyd.
1110	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu staff sydd â chymwysterau priodol i gefnogi deunyddiau sy'n benodol i'r cwrs, er enghraifft wyneb-yn-wyneb neu drwy ddulliau rhithwir.
1111	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn datblygu trefniadau gweithio da â Thimau Troseddau leuencid, ymarferwyr gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a darparwyr cymunedol i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau â'u dysgu yn syth ar ôl eu rhyddhau.
1112	Bydd angen i'r Cartref Diogel i Blant ddangos sut mae'n bwriadu adeiladu ar fuddsoddiad presennol y Llywodraeth mewn e-ddysgu i sicrhau'r gwerth mwyaf am arian cyhoeddus.
1113	Dylai'r darparwr dysgu sicrhau bod trefniadau asesu, cymedroli a dilysu'n bodloni gofynion cyrff dyfarnu ar gyfer darparu profion papur a phroffion ar-lein, gydag o leiaf un adroddiad dilysydd allanol boddhaol y flwyddyn ar gyfer pob cwrs.

## 12. Pynciau Eraill

### Cefndir

Mae'n ofynnol gan y **BCI** bod sefydliadau'n cyflenwi cwricwlwm eang a chytbwys. Mae Pennod 4 y ddogfen hon yn diffinio sut dylid dosrannu'r amser sydd ar gael ar gyfer y cwricwlwm. Bydd amrywiaeth a lefel y pynciau a gynigir yn adlewyrchu hyn.

Disgwylir i Gartrefi Diogel i Blant ddarparu rhaglen ddysgu i bob unigolyn ifanc sy'n diwallu anghenion personol ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r prosesau asesu ac ymsefydlu o fewn y fframwaith cwricwlwm hwn. Byddant yn sicrhau bod cynnydd a chyflawniadau pobl ifanc yn cael eu cofnodi a bod pobl ifanc eu hunain yn ymwneud â'r broses hon er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau rheoli eu dysgu eu hunain. Dylai hyn gynnwys hybu adolygu, cynllunio a datblygu parhaus, a chofnodi cyflawniad; pwysu a mesur eu cyflawniadau blaenorol a'u sgiliau cyfredol; datblygu cynlluniau a nodau gyrfa ar gyfer y dyfodol; a chyflwyno'u cyflawniadau a'u sgiliau i gael yr effaith orau.

Anogir Cartrefi Diogel i Blant i ddefnyddio dulliau arloesol o weithredu, a bydd angen iddynt ddangos eu bod yn gallu rhoi amrywiaeth o strategaethau addysgu a dysgu ar waith sy'n briodol i anghenion pobl ifanc a'u hawl i gael addysg a hyfforddiant amser llawn addas. Dylai'r rhain hefyd ystyried amrywiaeth ddiwylliannol y boblogaeth. Fel yn achos mathau eraill o ddarpariaeth dysgu, fe fydd yn bwysig bod dysgwyr sy'n symud i'r gymuned yn gallu parhau â'r dysgu y cychwynwyd arno yn y ddalfa. Trwy weithio gyda gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ac asiantaethau priodol eraill, dylai'r Cartrefi Diogel i Blant geisio sicrhau bod y pontio o'r ddalfa i'r gymuned mor llyfn â phosibl o ran dysgu.

Rhaid i'r Cartref Diogel i Blant weithio ar y cyd â phartneriaid eraill, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i gefnogi dysgwyr ym mhob maes, gan ddefnyddio deunyddiau dysgu o bell ac e-ddysgu'n briodol.

### Gofynion

1201	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod cwricwlwm eang a chytbwys yn cael ei gynnig yn unol â Phennod 4 y ddogfen hon.
1202	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod anghenion yn cael eu dadansoddi a bod polisïau i sicrhau cyfle cyfartal yn cael eu rhoi ar waith. Dylai rhaglenni fod yn gymdeithasol gynhwysol. Rhaid i addysg fod ar gael i bob dysgwr a dylid cydymffurfio â Pholisïau Cyfle Cyfartal.
1203	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod dysgwyr yn symud ymlaen i raglenni dysgu a sgiliau eraill ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn addas.
1204	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod gan addysg a hyfforddiant lwybrau dilyniant eglur ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau cartref ar ôl eu rhyddhau.

1205	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod sgiliau sylfaenol planedig yn cael eu datblygu.
1206	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod targedau heriol yn cael eu gosod a'u cyflawni. Dylid mesur cyflawniad o'i gymharu â thargedau a osodwyd.
1207	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, Timau Troseddau Ieuenctid, Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal lle bo'n briodol a darparwyr allanol i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd a gwireddu eu nodau personol.
1208	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn adlewyrchu'r llwybrau dilyniant priodol mewn Cynlluniau Dysgu Unigol ac yn gweithio gyda Thimau Troseddau Ieuenctid a darparwyr yn y gymuned i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau â'u dysgu rhwng y ddalfa a'r gymuned.
1209	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar ariannu dysgu a hyfforddiant, yn y ddalfa ac ar ôl rhyddhad.
1210	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr allanol i alluogi pobl ifanc i gael diwrnod astudio i ffwrdd o'r ddalfa ar gyfer dysgu a sgiliau, yn amodol ar asesiad risg a chyn belled â bod hyn yn briodol.
1211	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod staff dysgu profiadol sydd â chymwysterau priodol yn cael eu cyflogi. Dylai staff feddu ar gymwysterau dysgu priodol neu fod yn gweithio tuag atynt.
1212	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod trefniadau asesu, cymedroli a dilysu'n bodloni gofynion cyrff dyfarnu, gydag o leiaf un adroddiad dilysydd allanol boddhaol y flwyddyn ar gyfer pob cwrs.
1213	Dylai trefniadau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch fod ar waith yn y sefydliad trwyddo draw.
1214	Dylai rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n diwallu anghenion y staff a'r sefydliad fod ar waith.

### 13. Paratoi ar gyfer Rhyddhau ac Ailsefydlu

#### Cefndir

Yn ystod cyfnodau pontio pobl ifanc i'r ddalfa ac yn ôl i'w cymunedau, bydd y darparwr dysgu'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn effeithiol, yn enwedig wrth sicrhau bod gan bobl ifanc leoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn addas yn syth ar ôl eu rhyddhau. Mae Elfennau Allweddol ar Arfer Effeithiol (KEEP) Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, yn ogystal â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid, yn pennu'r hyn sydd angen i Dimau Troseddau Ieuencid ei wneud er mwyn sicrhau pontio i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl gadael y ddalfa a thu hwnt i'r ddedfryd.

Mae pontio'n cyfeirio at y gweithgareddau hynny sydd â'r nod o wneud pobl ifanc yn rhan o'r gymuned eto, waeth pryd mae'r gweithgareddau'n cael eu cynnal yn ystod y ddedfryd. Mae gan drefniadaeth pontio dair rhan sy'n wahanol ond sydd hefyd yn gorgyffwrdd:

- cynllunio cyn rhyddhau a pharatoi sy'n dechrau adeg y ddedfryd;
- cyfnod pontio strwythuredig sy'n gofyn am gyfranogiad staff gwarcheidol a TTI cyn ailymuno â'r gymuned ac wedi hynny;
- gweithgareddau tymor hir i'w gwneud yn rhan o'r gymuned eto, sy'n sicrhau bod addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y brif ffrwd ar gael ar ddiwedd y ddedfryd a bod modd cymryd rhan ynddynt a symud ymlaen ynddynt.

Bydd y Cartref Diogel i Blant yn chwarae rôl weithgar ac allweddol yn y broses cynllunio ailsefydlu, ac yn ffurfio cysylltiadau â darparwyr addysg a hyfforddiant, yn y ddalfa ac yn ardaloedd cartref y bobl ifanc breswyl.

Mae defnyddio'r ddedfryd gyfan fel cyfrwng ar gyfer dysgu'n hollbwysig, yn enwedig pwysigrwydd datblygu Cynllun dysgu unigol sy'n pontio rhwng y ddalfa a'r gymuned, ac sydd wedi'i gysylltu'n agos â'r broses Cynllunio Ddedfryd/Hyfforddi fel y'i rheolir gan y Cartref Diogel i Blant a'r Timau Troseddau Ieuencid.

Mae gan y gwasanaeth GCCh rôl hanfodol wrth helpu troseddwyr ifanc i ailsetlo yn y gymuned. Disgwylir i ddarparwyr weithio'n agos â'r gwasanaeth Gyrfa Cymru lleol yn hyn o beth.

Dylai'r Cartref Diogel i Blant ddarparu cyrsiau yn y ddalfa sy'n cymharu â'r rheini yn y gymuned, a darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar ddarpariaeth addas a ffynonellau ariannu posibl. Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod modd i bobl ifanc barhau â rhaglenni dysgu a ddechreuwyd yn y gymuned pan fyddant yn dychwelyd yno ar ôl bod yn y ddalfa.

Dylai staff rannu gwybodaeth â'r darparwr hyfforddiant/ysgol/coleg sy'n derbyn y bobl ifanc am y cymorth y bydd ei angen arnynt, am eu cyflawniad academaidd ac am eu hanghenion a'u nodau addysgol ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â hyn, dylai



staff roi gwybod i'r darparwr hyfforddiant/ysgol/coleg am unrhyw amodau dedfryd perthnasol a hefyd sut gall y Cartref Diogel i Blant gynorthwyo'r darparwr hyfforddiant/ysgol/coleg i fonitro a gorfodi presenoldeb, a gwella safonau cyflawniad ac ymddygiad. Rhaid i'r wybodaeth hon nodi strategaethau addysgu a dysgu sy'n cyfateb i anghenion ac arddull dysgu'r unigolyn ifanc.

Rhaid i'r darparwr dysgu gynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau yn y maes hwn, e.e. mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwybodaeth am ystod eang o bynciau fel addysg, gyrfaoedd, tai, arian ac iechyd yn ogystal â chyngor cyfrinachol a help ymarferol ([www.GyrfaCymru.com](http://www.GyrfaCymru.com)).

Mae paratoi ar gyfer rhyddhau ac ailsefydlu'n golygu cydweithio â sefydliadau gwirfoddol a statudol allanol, gan gynnwys y gwasanaeth Gyrfa Cymru lleol a'r TTI. Dylai'r Cartref Diogel i Blant gyfeirio at y KEEP Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth.

## Gofynion

1301	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn hwyluso mynediad at GCCh cysylltiedig â dysgu, sgiliau a chyflogaeth i bobl ifanc.
1302	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cyfrannu at strategaeth a thargedau ailsefydlu'r sefydliad trwy ddatblygu cynllun i ddangos sut gwneir cysylltiadau ag asiantaethau allweddol yn y sefydliad a'r tu hwnt iddo, a sut bydd Cynlluniau Dysgu Unigol yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'r Cynllun Dedfryd.
1303	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod aelod o staff addysg yn mynychu pob cyfarfod ymsefydlu, cynllunio ac adolygu.
1304	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cynnwys cynlluniau ar gyfer diwrnod astudio i ffwrdd o'r ddalfa fel nodwedd sylfaenol o raglenni dysgu ar gyfer unigolion cymwys, yn enwedig at ddiben galluogi pobl ifanc i ymweld â'r darparwr hyfforddiant/coleg/ysgol a fydd yn eu derbyn.
1305	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cofnodi gweithgareddau a chanlyniadau rhyddhau ac ailsefydlu.
1306	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod yr holl raglenni a ddarperir yn cymharu â'r rheini sy'n cael eu cynnig mewn amgylcheddau dysgu'r brif ffrwd, a bod pobl ifanc sy'n dychwelyd i'r gymuned ac yn trosglwyddo i sefydliad arall yn parhau â'u dysgu. Dylid cychwyn ar ystyriaethau a thrafodaethau lleoli â'r darparwr hyfforddiant/coleg/ysgol a fydd yn eu derbyn yn ystod pythefnos cyntaf y ddedfryd.
1307	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn hwyluso cyswllt â'r Gwasanaeth Gyrfa Cymru sy'n lleol i'r sefydliad a'r un sy'n lleol i gymuned cartref yr unigolyn ifanc, i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu ar ôl iddo gael ei ryddhau.

1308	Bydd pobl ifanc yn casglu cofnod o'u cynnydd a'u cyflawniadau gan gynnwys enghreifftiau o'u gwaith gorau tra'u bod yn y ddalfa. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth o'r cymwysterau a enillwyd, profiad gwaith a gafwyd, CV a thystiolaeth o weithgareddau allgyrsiol a Gweithgareddau Cyfoethogi a wnaed.
1309	Bydd pobl ifanc yn cael y cyfle i ymweld â'r darparwr dysgu/coleg/ysgol a fydd yn eu derbyn cyn gael eu rhyddhau i'r gymuned, yn amodol ar asesiad risg.
1310	Dylai'r holl ddysgu yn y ddalfa baratoi ac ysgogi myfyrwyr i ddychwelyd i'r ysgol, coleg neu gyflogaeth ac i'r gymuned. Dylai cyrsiau ymdrechu i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r ymwybyddiaeth, yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen i ddod yn rhan effeithiol o'r lleoliadau hyn eto.
1311	Dylai rhaglenni dysgu roi sylw i'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n fwy eang yn y gymuned, i ddod o hyd i lety a'i gadw, er enghraifft. Yn ogystal â hyn, dylid helpu staff i wneud eu rhaglenni gwaith mor berthnasol â phosibl i'r cymunedau y bydd y bobl ifanc yn dychwelyd iddynt.
1312	Rhaid i'r staff perthnasol fod â gwybodaeth ddigonol o'r farchnad waith bresennol ac un y dyfodol, a'i goblygiadau ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl ifanc, a chynghori'r holl staff ar sut i newid cyrsiau sy'n bodoli neu ddatblygu rhaglenni newydd i wneud pobl ifanc yn fwy cyflogadwy.
1313	Dylai'r holl staff helpu myfyrwyr i wneud yr wybodaeth a'r sgiliau a ddysgir ac a ddatblygir yn y sefydliad diogel yn berthnasol i'w dyfodol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.
1314	Rhoddir cyfleoedd i bobl ifanc defnyddio'u gwybodaeth mewn sefyllfaoedd neu efelychiadau bywyd go iawn trwy weithgareddau fel profiad gwaith, lleoliadau ysgol/coleg cymunedol neu weithio gyda mentor cymunedol.
1315	Datblygir partneriaethau rhwng yr adran addysg a chyflogwyr lleol i wella'r cyrsiau a ddarperir ac i ddarparu cymorth posibl i bobl ifanc ar ôl eu rhyddhau.
1316	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod staff addysg yn bresennol mewn cyfarfodydd ymsefydlu, cynllunio ac adolygu. Dylai staff addysg fynychu pob cyfarfod.
1317	Dylai'r Cartref Diogel i Blant a'r TTI sicrhau bod pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn addas yn syth ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa. Dylid integreiddio pob CDU yn llawn â'r Cynllun Dedfryd gydol y ddedfryd.



## 14. Sicrhau Ansawdd a Gwella Ansawdd

### Cefndir

Mae'n ddyletswydd statudol ar y BCI i fonitro gweithrediad a pherfformiad y system cyfiawnder ieuencid. Mae gan y BCI strwythur monitro perfformiad i sicrhau cydymffurfio â safonau c ymrwymadau cytundebol.

Mae pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn gosod cyfeiriad eglur sy'n arwain at addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel a, lle bo'n berthnasol, i ba raddau mae Rheolwyr Cartrefi Diogel i Blant yn bodloni eu cyfrifoldebau, yn dangos sicrwydd ansawdd effeithiol sy'n cyflawni gwelliant parhaus. Rhaid i'r Cartref Diogel i Blant fonitro a gwerthuso perfformiad trwy hunanasesiad a hybu cyfle cyfartal fel bod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial.

Mae Rheolwr y Cartref Diogel i Blant yn gyfrifol am wella ansawdd dysgu a sgiliau yn y sefydliad. Bydd gofyn i'r Cartref Diogel i Blant sicrhau ansawdd y gwasanaeth dysgu a sgiliau y mae'n yn ei ddarparu a gweithio i wella ansawdd y cyflenwad, y cynnwys a'r canlyniadau, gan ystyried yr egwyddorion arweiniol y manylir arnynt yn: *Elfennau Allweddol ar Arfer Effeithiol* – Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE); Rhaglen Ymddygiad Troseddol (OBP); ac Asesu, Cynllunio, Ymyrryd a Goruchwylio (APIS).

### Gofynion

1401	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cynhyrchu adroddiad hunanasesu blynyddol ar wella ansawdd wrth gyflenwi gweithgareddau dysgu a sgiliau.
1402	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cynhyrchu ac yn rhannu Cynllun Datblygu Addysg tair blynedd a fydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac sy'n ymwneud â themâu Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn yr Awdurdod Lleol.
1403	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn cynnal dadansoddiad anghenion blynyddol cynhwysfawr i sicrhau bod y cwricwlwm yn ymateb i anghenion y dysgwyr a gofynion y ddogfen hon.
1404	Dylai fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol a chynhwysfawr fod ar waith. Dylai prosesau cyson fod ar waith ar gyfer monitro ansawdd yn y sefydliad trwyddo draw, yn ogystal ag archwiliadau ansawdd mewnol rheolaidd, i ddarparu sail ar gyfer adroddiad hunanasesu (SAR), a dylai cynllunio fynd rhagddo. Dylai gwybodaeth ansawdd berthnasol fod ar gael, gan gynnwys: data sylfaen a chofnod o welliant o flwyddyn i flwyddyn; SAR cynhwysfawr a manwl gywir; a dylai staff addysgu a chymorth chwarae rhan lawn. Dylid diweddarau'r cynllun gweithredu â thargedau CAMPUS yn rheolaidd. Dylid adolygu cynllun datblygu tair blynedd â thargedau CAMPUS, y mae SAR yn darparu sail ar ei gyfer, a dadansoddiad anghenion yn flynyddol. Dylai tueddiadau perfformiad ddangos gwelliant parhaus neu ddangos bod safonau uchel yn cael eu cynnal ym mhob maes.

1405	<p>Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Dylai cynllun gweithredu gynnwys targedau ar wella'r 'cydweddu' rhwng rhaglenni dysgu a nodau/diddordebau dysgwyr a'r gofyniad y manylir arno yn y ddogfen hon. Er enghraifft, dylai arolygon dysgwyr rheolaidd ddangos tystiolaeth o gynnydd o ran boddhad y dysgwr o flwyddyn i flwyddyn. Dylai lefelau cadw wella. Dylai data cynnydd ddangos gwelliant. Dylai prosesau cyson ar gyfer monitro ansawdd addysgu a dysgu yn y sefydliad trwyddo draw gynnwys arsylwi ar addysgu'n rheolaidd. Dylai cynllun gwella addysgu fod ar waith. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys targedau ar gyfer gwella adnoddau i sicrhau eu bod yn cefnogi'r rhaglen yn llawn, yn cael eu diweddarau a ddim yn ystrydebu. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys targedau ar gyfer gwella asesu ac adolygu cynnydd dysgwyr e.e. ansawdd ac amlder sesiynau adolygu un-i-un.</p>
1406	<p>Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod rhaglenni datblygu proffesiynol sy'n diwallu anghenion y staff a'r sefydliad yn parhau i fod ar waith. Dylai rhaglen flynyddol gynlluniedig ar gyfer hyfforddi staff, ar sail darganfyddiadau arfarniadau staff, fod ar waith. Rhaid i'r holl staff gael eu hyfforddi'n flynyddol mewn ymateb i anghenion a nodir yn ystod arfarniadau. (Bydd staff rhan-amser yn cael hyfforddiant pro-rata i gyfran cyflogaeth amser llawn.) Dylid adolygu a gwerthuso'r holl hyfforddiant staff.</p>
1407	<p>Dylai'r Cartref Diogel i Blant fod yn bennaf gyfrifol am iechyd a diogelwch. Dylai trefniadau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch fod ar waith yn yr Uned drwyddi draw. Dylai hysbysiadau iechyd a Diogelwch fodloni gofynion cenedlaethol a llinellau sylfaen archwiliadau. Dylai'r holl amgylcheddau ac arferion dysgu fodloni gofynion iechyd a diogelwch statudol.</p>

## 15. Dysgu Cynhwysol a Chymorth Dysgu

### Cefndir

Mae gan lawer o bobl ifanc mewn Cartrefi Diogel i Blant rwystrau niferus a chymhleth rhag dysgu sy'n amharu ar eu gallu i gyrchu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, cymryd rhan ynddynt a gwneud cynnydd ynddynt. Bydd angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt i'w galluogi i gyflawni eu nodau dysgu. Mae gan bob unigolyn ifanc yr hawl gyfreithiol i gael asesiad llawn ac i gael ei Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi'u nodi, fel y diffinnir yng Nghodau Ymarfer AAA Cymru a Lloegr.

Bydd gofyn i'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod anghenion dysgwyr unigol wrth galon yr holl addysgu a dysgu, a bod ganddo strategaeth ar waith sy'n diwallu'r anghenion hyn. Dylai'r Cartref Diogel i Blant gyflenwi gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r gofynion isod ac â'r egwyddorion a amlinellir mewn dogfennau allweddol, gan gynnwys Deddf wahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Chod Ymarfer AAA Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn manylu ar yr angen i sefydliadau fod â strategaeth ddysgu gynhwysol ym mhob darpariaeth dysgu a sgiliau, gan gynnwys asesiad unigol manwl o anghenion, staff addysgu a chymorth arbenigol ac anarbenigol tra chymwysedig a phrofiadol, rhaglen datblygu staff gref, cyflenwad o ansawdd uchel, asesiad cadarn o gynnydd/cyflawniad a systemau data da. Bydd y Cartref Diogel i Blant hefyd yn cydweithio â'r asiantaethau allanol arbenigol yn ystod amser yr unigolyn ifanc yn y ddalfa ac wedi hynny, gan wneud atgyfeiriadau lle bo angen.

Bydd gofyn i'r Cartref Diogel i Blant ddefnyddio dull arloesol o weithredu, gan ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu a dysgu a gwahanol ddulliau cyflenwi i gyrraedd pob dysgwr, gan gynnwys y rheini ag anableddau/anawsterau dysgu. Lle bo angen cymorth dysgu, dylai hyn fod ar gael yn yr ystafell ddosbarth, fel darpariaeth ar wahân, neu un-i-un fel bo angen, er mwyn sicrhau bod yr ystod llawn o gyfleoedd cwricwlwm o fewn cyrraedd pobl ifanc a'u bod yn gallu cyflawni ynddynt. Rhaid bod â chysylltiadau effeithiol rhwng prif athrawon cyrsiau a staff cymorth dysgu. Dylai cymorth fod ar yr amserlen a chynnwys targedau penodol â chyfyngiadau amser, wedi'u diwygio a'u diweddarau, gydag adolygiadau wedi'u cynnwys yn y CDU. Bydd y Cartref Diogel i Blant yn nodi ac yn defnyddio adnoddau priodol i ddiwallu anghenion unigol ac anghenion ychwanegol, gan gynnwys dogfennau cwricwlwm arbenigol (er enghraifft, Fframwaith y Cwricwlwm Cyn-mynediad Sgiliau Bywyd fel adnodd posibl).

Fel y nodwyd mewn adrannau eraill, bydd y darparwr dysgu'n gweithio i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle gorau i barhau â'i ddysgu, gan gynnwys y rheini ag anableddau ac anawsterau dysgu, yn enwedig o ran cefnogi'r cyfnod pontio i'r gymuned a'r cyfnod pan mae pobl ifanc yn cael eu trosglwyddo rhwng sefydliadau. Yn aml, mae pobl ifanc yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau cyn iddynt gwblhau cyrsiau. Rhaid i'r defnydd o gyrsiau modwlar ac achrediad unedau, datblygiad strategaethau ardal eang ar gyfer darpariaeth ailsefydlu a hyfforddi, a throsglwyddiad effeithiol cofnodion cynnydd a chyflawniad mewn Cynlluniau Dysgu Unigol gefnogi'r strategaeth gyffredinol i sicrhau bod addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn addas o fewn cyrraedd pobl ifanc, a'u bod yn gallu cymryd rhan ynddynt a gwneud cynnydd ynddynt trwy gydol y ddedfryd a thu hwnt.

## Gofynion

1502	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn nodi ac yn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu defnyddio i gefnogi pob dysgwr mewn ymateb i angen dynodedig.
1503	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gefnogi dysgwyr, a'u bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wneud hyn.
1504	Bydd y Cartref Diogel i Blant yn sicrhau bod proses asesu gadarn ar waith i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu nodi a bod cymorth priodol i ddiwallu'r rhain.
1505	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod strategaeth ddysgu gynhwysol effeithiol a chynhwysfawr ar waith. Dylai tueddiadau perfformiad dros amser ddangos gwelliant parhaus neu ddangos bod safonau uchel yn cael eu cynnal ym mhob un o'r meysydd a ganlyn: Dylai Adroddiadau Hunanasesu fynd i'r afael â dysgu cynhwysol a dylai'r staff perthnasol fod yn berchen arnynt. Dylai data dysgu cynhwysol perthnasol fod ar gael, gan gynnwys data sylfaen ar anabledau/anawsterau dysgu. Dylai'r cynllun gweithredu a'r cynllun datblygu gynnwys targedau CAMPUS ar gyfer dysgu cynhwysol, i'w diweddarau'n flynyddol.
1506	Dylai'r darparwr dysgu nodi anghenion dysgu ychwanegol unigol, a darpariaeth cymorth. Dylid asesu llythrennedd a rhifedd yr holl bobl ifanc. Dylid asesu'r holl bobl ifanc y tybir bod ganddynt AAA cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl cychwyn cyfnod yn y ddalfa, a dylai'r holl bobl ifanc yr asesir eu bod yn is na Lefel 1 gael pum awr o gymorth gan Gynorthwyydd Cymorth Dysgu bob wythnos. Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a'r rheini sy'n eu helpu, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gadw Cod Ymarfer AAA mewn cof. Rhaid iddynt beidio â'i anwybyddu. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i leoliadau, ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol ystyried beth mae'r Cod yn ei ddweud pryd bynnag y byddant yn penderfynu sut i ymarfer eu swyddogaethau'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig, a phryd bynnag mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn darparu help i'r cyrff hynny yn hyn o beth. Dylai'r cyrff hyn gyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at blant ag anghenion addysgol arbennig ond nhw ddylai benderfynu sut i wneud hynny – yng ngoleuni cyfarwyddyd yn y Cod Ymarfer hwn. Cynlluniwyd y Cod i'w helpu i wneud penderfyniadau effeithiol ond nid yw – ac ni allai – ddweud wrthynt beth i'w wneud ym mhob achos unigol.
1507	Dylai'r darparwr dysgu sicrhau bod adnoddau perthnasol yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu. Dylai pob athro, hyfforddwr a staff cymorth fod â dogfennau cwricwlwm perthnasol ac adnoddau eraill. Dylai 85% o staff ym mhob maes cwricwlwm fod â chynlluniau gwaith sy'n dangos tystiolaeth eu bod wedi'u hintegreiddio â rhannau perthnasol o'r maes llafur.

1508	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod staff arbenigol sydd â chymwysterau priodol yn cael eu cyflogi (gwelwch hefyd y bennod ar lythrennedd, iaith a rhifedd am fanylion yr arbenigedd dyslecsia gofynnol). Dylai rhaglen flynyddol ar gyfer hyfforddi staff fod ar waith yn unol â FfCC Cyfiawnder Ieuencid. Dylid rhoi'r cyfle i bob Cynorthwydd Cymorth Dysgu ddilyn y Dystysgrif Broffesiynol mewn Ymarfer Effeithiol (Cymorth Dysgu).
1509	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau bod rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer cefnogi dysgu ar waith. Dylai rhaglen flynyddol ar gyfer hyfforddi staff fod ar waith (fel uchod, i gwmpasu hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant mewn gwasanaeth) yn unol â'r FfCC Cyfiawnder Ieuencid.
1510	Dylai'r Cartref Diogel i Blant sicrhau cymorth o ansawdd uchel i'r holl ddysgwyr. Dylai tueddiadau mewn perfformiad dros amser naill ai dangos gwelliant parhaus mewn cymorth dysgu neu ddangos bod safonau uchel iawn yn cael eu cynnal. Dylai'r Rheolwr Cofrestredig fod yn gyffredinol gyfrifol ac atebol. Dylai prosesau cyson ar gyfer monitro ansawdd cymorth fod ar waith yn y sefydliad trwyddo draw. Dylai archwiliadau ansawdd rheolaidd o gymorth dysgu fod ar waith i ddarparu sail ar gyfer adroddiad hunanasesu (AHA), cynllunio gweithredu a chynllunio datblygu. Dylai gwybodaeth ansawdd berthnasol ar gyfer llythrennedd, iaith a rhifedd fod ar gael, gan gynnwys: data ansawdd sylfaen; Adroddiadau Hunanasesu realistig y mae'r staff yn 'berchen' arnynt; cynllun gweithredu gyda thargedau CAMPUS, i'w ddiweddarau'n rheolaidd; cynllun datblygu tair blynedd gyda thargedau CAMPUS. Dylai trefniadau arsylwi ar wersi fod ar waith, a dylid cynhyrchu cynlluniau gwella addysgu.
1511	Lle maent yn bodoli, bydd yr holl gynlluniau addysgol eraill sy'n gysylltiedig â statws AAA neu Ofal, e.e. Cynlluniau Dysgu Unigol, Cynlluniau Addysg Personol neu Gynlluniau Pontio yn parhau i gael eu gweithredu a'u hadolygu yn rhannau gwarcheidiol a chymunedol y ddedfryd.
1512	Ymdrechir i gynnwys a hysbysu rhieni/gofalwyr am gynnydd a datblygiad yr unigolyn ifanc.
1513	Gwneir pob ymdrech i sicrhau gwybodaeth oddi wrth y gymuned ynglŷn â ph'un a nodwyd bod gan yr unigolyn ifanc Angen Addysgol Arbennig ac ynglŷn â pha gyfnod o'r Cod Ymarfer y mae arno ar y pryd neu roedd arno pan fynychodd yr ysgol/coleg ddiwethaf.
1514	Bydd swyddog goruchwyllo'r TTI yn sicrhau bod Anghenion Addysgol Arbennig unigolyn ifanc yn parhau i gael eu diwallu yn y gymuned, a rhaid iddo sicrhau bod cynlluniau cydlynol ar gyfer hyn ar waith pan fydd unigolyn ifanc yn gadael y Cartref Diogel i Blant, gan gynllunio ar gyfer hyn o leiaf tair wythnos cyn i'r unigolyn ifanc gael ei ryddhau.
1515	Bydd gan yr holl sefydliadau broses sgrinio ac atgyfeirio gadarn ar gyfer AAA, gan gynnwys ffyrdd y gall pobl ifanc, rhieni/gofalwyr ac unrhyw ymarferwr gysylltu â'r Cydlynnydd AAA (neu'r athro priodol).





## **16. Pwyntiau Esbonio**

### **Timau Troseddau Ieuenctid (TTI)**

Mae TTI yn wasanaeth amlasiantaeth lleol sy'n darparu goruchwyliaeth i bobl ifanc ar bob lefel y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'r brif ffrwd yn cael eu cyrchu a'u cyflenwi mewn ffordd sy'n cael effeithiau positif ar leihau'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol ac yn cynyddu ffactorau amddiffynnol.

#### **Ieuenctid**

Mae'r term 'troseddwr ieuenctid' yn cyfeirio at droseddwr ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid ac sydd dan oruchwyliaeth y Timau Troseddau Ieuenctid, a gellir eu cadw mewn manau a gomisiynir gan y BCI yn y ddalfa. Felly, mae hyn yn cynnwys pobl ifanc rhwng 10 a 17 oed a rhai sy'n 18 oed sy'n agos at ddiwedd eu dedfryd (nad ydynt wedi'u trosglwyddo i'r system cyfiawnder troseddwr i oedolion). Mae'r term 'y ddalfa ieuenctid' yn cyfeirio at leoedd gwarcheidiol sy'n cael eu comisiynu gan y BCI – h.y. ymhlith y sefydliadau gwarcheidiol sy'n cymryd ieuenctid mae Cartrefi Diogel i Blant, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwr Ifanc (sylwch fod rhai Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn safleoedd sy'n cael eu rhannu, gyda safle ieuenctid a safle oedolion).

#### **Y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO)**

Dyma'r prif ddedfryd warcheidiol i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed. Mae'n ddedfryd '50/50' gyda hanner yn cael ei threulio yn y ddalfa a hanner dan oruchwyliaeth yn y gymuned. Mae'r TTI yn darparu swyddog goruchwyllo ar gyfer pob unigolyn ifanc ar DTO, a chyfrifoldeb y swyddog goruchwyllo yw sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chynllunio a'i chynnal yn briodol, trwy gydol y DTO cyfan. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'n ofynnol cyflenwi Addysg a Hyfforddiant dan y Gorchymyn hwn.

#### **Adran 90/91 (Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)**

Os yw'r cyhuddiad yn un am lofruddiaeth, daw'r ddedfryd dan Adran 90 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000. Rhoddir y term "Cadw Hyd y Mynno Ei Mawrhydi" ar ddedfrydau o'r fath a bydd dedfryd orfodol am oes yn berthnasol. Bydd y llys dedfrydu'n gosod isafswm tymor (neu'r tariff i roi enw arall arno) i'w dreulio yn y ddalfa, ac wedi hynny, gall yr unigolyn ifanc wneud cais i'r Bwrdd Parôl am ryddhad. Mae cyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Bwrdd Parôl (cyhoeddwyd Awst 2004) yn manylu ar feini prawf asesu ar gyfer rhyddhau'r rheini sy'n bwrw dedfryd am oes. Unwaith y bydd yr unigolyn ifanc yn cael ei ryddhau, bydd yn destun trwydded oruchwyllo am gyfnod amhenodol.

Os bydd unigolyn ifanc yn cael ei gyhuddo o drosedd y gallai oedolyn gael o leiaf 14 llynedd yn y ddalfa amdani, gall gael ei ddedfrydu dan Adran 91 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000. Gall hyd y ddedfryd amrywio o unrhyw gyfnod hyd at uchafswm oedolyn am yr un drosedd, a allai fod am oes yn achos rhai troseddau penodol.

## **Adran 226/228 (Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003)**

Yn cymhwyso'r ddedfryd amddiffyn y cyhoedd i'r rheini dan 18 oed er i bobl ifanc mae'n ddedfryd cadw yn hytrach na charcharu. Gall llys basio'r ddedfryd os yw'r troseddwr yn cael ei gyhuddo o drosedd rywiol neu dreisiol benodol ac iddi uchafswm dedfryd o ddeng mlynedd neu fwy, ac os yw'r llys o'r farn bod risg sylweddol y byddai'r troseddwr yn achosi niwed difrifol i'r cyhoedd.

Yn cymhwyso'r ddedfryd estynedig i'r rheini dan 18 oed y mae'r llys o'r farn bod risg sylweddol y byddent yn achosi niwed difrifol. Pan fydd y troseddwr wedi'i ddedfrydu o drosedd benodedig, rhaid i'r llys osod dedfryd estynedig, oni bai bod y drosedd yn drosedd ddifrifol a bod yr achos yn un a fyddai'n briodol i ddedfryd dan adran 226.

## **ASSET**

Dyma'r prif offeryn asesu a ddefnyddir yn y system cyfiawnder ieuencid. Ei brif bwrpas yw asesu elfennau ar risg o droseddu a ffactorau amddiffynnol i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth gynllunio ymyriad. Ceir adran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i'r ffurflen ASSET sydd wedi'i chynllunio i nodi unrhyw anghenion arbennig neu feysydd sy'n achosi problemau, a dylai hyn ddarparu sail ar gyfer cynllunio dysgu unigol a chynllunio dedfryd. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid yn manylu ar y gofynion ar gyfer defnyddio ASSET ac ar y prosesau adolygu sydd eu hangen ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn dedfrydau gwarcheidiol.

## **Cymysgedd y Cwricwlwm**

Mae ystod oedran a lefelau cyrhaeddiad pobl ifanc mewn sefydliadau ieuencid mor amrywiol nes bod angen i'r gwasanaeth addysg a hyfforddiant fod yn eang ac yn ddwys, gan gwmpasu'r cwricwlwm cenedlaethol i'r rheini dan oed gadael ysgol statudol a gwaith galwedigaethol, TGAU, Diplomâu, gwaith Safon Uwch lle bo'n briodol yn ogystal â gwaith llythrennedd a rhifedd sylfaenol dwys. Mae Adrannau 4.1 a 4.2 y ddogfen hon yn amlinellu sut dylai darparwyr dysgu rannu amser y cwricwlwm rhwng gweithgareddau dysgu a sgiliau wrth ddatblygu rhaglenni dysgu cytbwys i bobl ifanc.

Er mai'r ddogfen hon yw'r prif yrrwr gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, mae yna nifer o ddogfennau rheoleiddio eraill y bydd angen i ddarparwyr dysgu gyfeirio atynt er mwyn bodloni'r gofynion.

**Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid** – a gyhoeddwyd gan y **BCI**, a'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Cartref sy'n pennu safonau arfer sy'n ofynnol yn y system cyfiawnder ieuencid trwyddi draw.

**PSO4950** – yn manylu ar reolau, gorchmynion a safonau'r **Gwasanaeth Carchardai** ar gyfer darpariaeth warcheidiol i bobl ifanc dan 18 oed.

**Cyfarwyddyd DTO** – yn manylu ar y gofynion ar gyfer cynnal y ddedfryd DTO.

## **Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)**

### **Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella safonau darpariaeth addysg ledled Cymru. Rydym hefyd am gryfhau cyfraniad addysg a hyfforddiant at ddatblygiad economaidd. Mae darparwyr dysgu ym mhob sector yn hanfodol i hyrwyddo safonau addysg.

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cynyddu lefelau cyflawniad pobl Cymru trwy ei pholisïau addysg a hyfforddiant. Trwy'r polisïau hyn, ei nod yw cyflawni lles cymdeithasol ac economaidd sy'n hanfodol i ddatblygu economi ffyniannus.

Rydym yn hybu diwylliant dysgu gydol oes i helpu i wella cyfleoedd ar gyfer pobl ym mhob cyfnod o'u hoes, o'r ysgol hyd y coleg neu'r brifysgol ac ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol neu hyfforddiant seiliedig ar waith.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu'r arweinyddiaeth, y polisïau a'r cyfarwyddyd i randdeiliaid allweddol sydd a wnelo ag addysg, sgiliau a dysgu gydol oes. 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yw'r enw ar ein strategaeth ar gyfer datblygu'r polisïau hyn.

**Strategaeth Arfer Effeithiol Cyfiawnder Ieuenctid** – strategaeth ar gyfer sicrhau bod holl ymyriadau cyfiawnder ieuenctid wedi'u seilio ar y dystiolaeth ymchwil orau o beth sy'n gweithio wrth atal troseddu. Mae Elfennau Allweddol ar Arfer Effeithiol (KEEP) wrth galon hyn, wedi'u cynllunio i gyfod y negeseuon o ymchwil mewn sawl maes allweddol ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr. Y pedair Eifen Allweddol ar Arfer Effeithiol fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth; Rhaglenni Ymddygiad Troseddol; Asesu, Cynllunio, Ymyrryd a Goruchwylio; ac Ailsefydlu. Mae yna Fframwaith Sicrhau Ansawdd Arfer Effeithiol yn cyd-fynd â hyn.



## Rhestr o Dermau

APIS	Asesu, Cynllunio, Ymyrryd a Goruchwylio
APR	Asesu, Cynllunio ac Adolygu
ASSET	Offeryn Asesu Troseddwy'r Ifanc a ddefnyddir gan Dimau Troseddau leuencid a Chyfleusterau Diogel
CDU	Cynllun dysgu unigol
CMF	Cronfa moderneiddio cyfalaf, sef arian a ddyrannwyd i sefydliadau gan <b>OLSU</b> , rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2004, i foderneiddio cyfleusterau hyfforddi galwedigaethol a gwella cyfleusterau ar gyfer asesu, addysgu sgiliau sylfaenol a llyfrgelloedd.
COSHH	Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002
DTO	Gorchymyn Cadw a Hyfforddi
Dysgu fel Teulu	Cyrsiau sy'n darparu'r sgiliau a'r wybodaeth i droseddwy'r i'w helpu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd teuluol
ESOL	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
ETE	Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
FENTO	Dysgu Gydol Oes y DU
GCCh	Gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd
KEEP	Elfennau Allweddol ar Arfer Effeithiol y <b>BCI</b>
NIACE	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
APIS	Asesu, Cynllunio, Ymyrryd a Goruchwylio

